



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Strategaeth Biaddiogelwch Planhigion ar gyfer Prydain

Ymgynghoriad

Awst 2021



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot



Forestry Commission



© Hawlfraint y Goron 2021

Trwyddedir y wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn

plantbiosecuritystrategy@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Cydnabyddiaeth	5
Pwrpas.....	6
Cwestiynau 1-6	6
Rhagair	8
Cyflwyniad	9
Pam bod planhigion yn bwysig?	10
Beth a olygwn wrth fioggiogelwch a pham mae'n bwysig?	12
Pam mae angen i'r llywodraeth ymyrryd?.....	12
Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol	14
Canlyniad 1: Trefn bioggiogelwch o'r radd flaenaf	14
Canlyniad 2: Cymdeithas sy'n gwerthfawrogi planhigion iach	14
Canlyniad 3: Cadwyn gyflenwi planhigion bioggiogel.....	14
Canlyniad 4: Gallu technegol gwell	14
Cwestiynau 7-8	15
Canlyniad 1: Trefn bioggiogelwch o'r radd flaenaf.....	16
Fframwaith rheoleiddio	16
Gweithgarwch cyn y ffin.....	19
Gweithgarwch ar y ffin	20
Gweithgarwch mewndirol	21
Cwestiynau 9-15	22
Canlyniad 2: Cymdeithas sy'n gwerthfawrogi planhigion iach.....	26
Codi ymwybyddiaeth.....	26
Sector addysg	26

Hyfforddiant proffesiynol.....	28
Gwyddoniaeth i Ddinasyddion.....	29
Canllawiau a phecynnau cymorth	29
Cwestiynau 16-20.....	30
Canlyniad 3: Cadwyn gyflenwi planhigion bioddiogel	32
Gweithio mewn partneriaeth.....	32
Mentrau'r gadwyn gyflenwi	33
Cefnogi cynhyrchiant domestig	33
Cefnogi creu coedlannau.....	35
Cwestiynau 21-26	35
Canlyniad 4: Gallu technegol gwell	38
Darparwyr ymchwil.....	38
Cydweithio ar draws Prydain.....	39
Cydweithredu rhyngwladol	40
Blaenoriaethau ymchwil yn y dyfodol.....	41
Mabwysiadu technolegau datblygol mewn bioddiogelwch.....	42
Cwestiynau 27-33	43
Atodiad A – Ymgynghoriad ar fesurau bioddiogelwch ychwanegol ar gyfer coed risg uchel	46
Pwrpas	46
Mesurau bioddiogelwch cyfredol o bwys ar gyfer coed.....	47
Cwestiynau 34-38	49
Mesurau bioddiogelwch ychwanegol	50
Cwestiwn 3-9.....	53
Adborth Ymgynghoreion ar yr Arolwg Ar-lein.....	55

Cydnabyddiaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i lansio gan Defra, llywodraeth Cymru a llywodraeth yr Alban i lywio dull Prydain o ymdrin â bioddiogelwch planhigion dros y pum mlynedd nesaf.

Bydd y dull newydd yn adeiladu ar y Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion flaenorol ar gyfer Prydain a gyhoeddwyd yn 2014¹. Bydd ein² dull bioddiogelwch diwygiedig yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'n partneriaid drwy fforymau sefydledig, ac o safbwyntiau'r cyhoedd drwy'r ymgynghoriad hwn.

Yn y cyfnod cyn yr ymgynghoriad hwn, ymatebodd y rhanddeiliaid i alwad anffurfiol am syniadau a helpodd i lunio'r ddogfen hon a darparu pwyntiau cyfeirio gwerthfawr. Hoffem ddiolch i'r sefydliadau a'r grwpiau canlynol am ddarparu deunydd a sylwadau mewn ymateb i'r alwad hon:

- Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
- The Arboricultural Association
- British Association of Landscape Industries
- Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
- Fitter Flora
- Gweithgor Coedwigaeth a Newid yn yr Hinsawdd
- Grown in Britain
- Cymdeithas Crefftwyr Garddwriaethol
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Ornamental Aquatic Trade Association Ltd
- Ornamental Horticulture Roundtable Group
- Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol
- Tyfu Cymru
- Coed Cadw
- Grŵp Polisi Iechyd Coed
- Grŵp Llywio Cynghrair Iechyd Planhigion y DU
- Fforwm Ymgynghorol Iechyd Planhigion y DU

¹ [Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain 2014](#)

² Defnyddir y term 'ni' ac 'ein' drwy gydol yr ymgynghoriad. Ym mhob achos bron, mae'n cyfeirio at Defra, y Comisiwn Coedwigaeth, Llywodraeth yr Alban a/neu Lywodraeth Cymru.

Pwrpas

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i lansio i'n helpu i ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb mewn iechyd planhigion, a chyfrifoldeb tuag ato. Bydd eich ymatebion yn helpu i lywio Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion newydd Prydain a fydd yn cael ei chyhoeddi yn 2022. Bydd y strategaeth newydd yn nodi gweledigaeth ar gyfer bioddiogelwch planhigion dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd y gwaith o gyflawni'r strategaeth yn cael ei gydlynu ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban drwy'r Fframwaith Cyffredin newydd ar gyfer Iechyd Planhigion (ymrwmiad i barhau i weithio ar y cyd er mwyn sefydlu dull cyffredin, lle bydd y maes lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli yn cyd-fynd â phwerau sydd wedi dychwelyd o'r UE³). Mae cwrpas yr ymgynghoriad hwn wedi'i gyfyngu i fiolddiogelwch planhigion a chynnyrch planhigion (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, goed, llysiau, ffrwythau yn yr ystyr fotanegol, deunydd pecynnu pren, blodau i'w torri ac ati)⁴.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y strategaeth gyffredinol, rydym hefyd yn lansio ymgynghoriad technegol manylach ar fesurau bioddiogelwch ychwanegol ar gyfer rhywogaethau o goed sy'n peri risg benodol o gyflwyno plâu drwy fewnforion. Bydd yr ymgynghoriad technegol hwn (**Atodiad A**) yn edrych ar y risgiau bioddiogelwch penodol sy'n gysylltiedig â mewnforio coed a p'un a ddylid cyflwyno mesurau pellach yn y dyfodol i gryfhau ein trefn bioddiogelwch. Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad mwy technegol hwn yn ogystal â'r cwestiynau yn y brif ddogfen.

Er mwyn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion, hoffem gael gwybod pwy ydych chi. Mae'r cwestiynau yn yr adran hon yn rhoi gwybodaeth bwysig i ni ynghylch eich diddordeb naill ai fel aelod o'r cyhoedd, perchennog busnes, academydd neu ar ran sefydliad. Mae deall yr wybodaeth hon yn ein galluogi i ddeall sut hoffai gwahanol sectorau o'r gymdeithas i ni ymdrin â bioddiogelwch a bydd yn ein helpu i gysylltu â chi i ddatblygu cynigion os bydd angen.

Cwestiynau 1-6

1. Ydych chi am i'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol? (gweler datganiad cyfrinachedd yr ymgynghoriad hwn)

- Ydw
- Nac ydw

³ Bydd y fframwaith hwn, ynghyd â rheoliadau Prydain sydd ar waith ar draws y gweinyddiaethau, yn ceisio dal ati i fabwysiadu rheolau iechyd planhigion cyffredin ar draws Prydain/y DU gan barchu'r potensial ar gyfer dargyfeirio a rheoli'r gallu i un weinyddiaeth weithredu mewn ffordd wahanol lle mae cyfiawnhad technegol dros hynny.

⁴ Mae'r diffiniad a rhestr gynhwysfawr o blanhigion a chynnyrch planhigion yn ein rheoliadau ar gael [yma](#).

2. Os ydych chi wedi ateb Ydw i'r cwestiwn hwn, rhowch eich rheswm.

3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?⁵

4. O ba ranbarth daearyddol ydych chi?

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Arall

5. Dywedwch wrthym pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio'ch diddordeb mewn iechyd planhigion orau? Dewiswch un opsiwn.

- aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb gyda barn bersonol
- tirlfeddiannwr neu reolwr tir
- coedwigwr
- ymarferydd coedyddiaeth neu weithiwr coed proffesiynol arall
- ffermwr
- busnes sy'n tyfu ac yn gwerthu planhigion neu gynnyrch planhigion i fasnach
- busnes sy'n tyfu ac yn gwerthu planhigion neu gynnyrch planhigion i'r cyhoedd
- busnes sy'n gwerthu neu'n masnachu planhigion ar-lein yn unig, heb safleoedd ffisegol
- aelod o'r sector tirlunio
- aelod o'r sector addysg
- ymwneud â gwaith ymchwil neu wyddor iechyd planhigion
- llywodraeth leol
- corff anllywodraethol amgylcheddol
- corff proffesiynol
- os nad yw wedi'i nodi uchod, nodwch eich diddordeb (dim mwy na 25 gair)

6. Os yw'n berthnasol, beth yw enw'r sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran?

⁵ Os byddwch yn rhoi eich cyfeiriad e-bost, byddwch yn cael e-bost cydnabod yn awtomatig pan fyddwch yn cyflwyno eich ymateb ar y Gofod Dinasyddion.

Rhagair

Mae planhigion yn hanfodol os ydym am oroesi. Maen nhw'n rhoi bwyd i ni ei fwyta, yr ocsigen rydyn ni'n ei anadlu, ac yn cyfrannu at ein lles. Maent yn chwarae rhan hanfodol mewn ecosystemau, ac yn lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd, a hefyd yn chwarae rhan allweddol yn ein heconomi. Fodd bynnag, mae'r bygythiad gan blâu a chlefydau planhigion yn sylweddol ac yn tyfu yn sgil y globaleiddio cynyddol a'r newid amgylcheddol. Mae newid yn yr hinsawdd yn helpu rhywogaethau anfrodorol i sefydlu a lledaenu mewn ardaloedd lle nad oeddent gynt yn gallu goroesi. Mae llwybrau cyflwyno newydd wedi datblygu oherwydd newidiadau byd-eang o ran cynhyrchu planhigion ac yn sgil y cynnydd yn y nifer a'r amrywiaeth o blanhigion a chynnyrch planhigion sy'n dod i mewn i Brydain ac yn cael eu symud o gwmpas. Nawr yw'r amser am ddull newydd er mwyn lliniaru'r risg gynyddol o blâu a chlefydau planhigion sy'n bygwth ein cnydau, ein coed, ein parciau a gerddi, a'n cefn gwlad gwerthfawr.

Gan gydnabod nad yw plâu a phathogenau yn parchu ffiniau cenedlaethol, mae ein tair gwlad wedi cytuno i alinio o gwmpas gweledigaeth bioddiogelwch gyffredin a gweithredu gyda'i gilydd. Gan adeiladu ar sylfaen gadarn Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain 2014, bydd y strategaeth bum mlynedd newydd hon hefyd yn cael ei pharatoi ar sail Prydain, gyda Defra, llywodraeth Cymru a llywodraeth yr Alban yn cydweithio.

Mae gan Ogledd Iwerddon strategaeth Iwerddon gyfan ar gyfer iechyd planhigion, sy'n cynnal statws hirdymor yr ynys fel un uned epidemiolegol. Mae Prydain hefyd yn un uned epidemiolegol, ac felly bydd y Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion newydd yn cael ei defnyddio ar hyd a lled Prydain, yn unol â strategaeth bresennol 2014.

Mae'r trefniadau a sefydlwyd o dan y fframwaith iechyd planhigion yn adlewyrchu lle hanfodol Gogledd Iwerddon yn y Deyrnas Unedig ac yn darparu'r mecanweithiau llywodraethu a datrys anghydfodau sy'n seiliedig ar gonsensws i hwyluso cydweithrediad parhaus rhwng pedair gweinyddiaeth y DU ar faterion iechyd planhigion.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig) i sicrhau'r amddiffyniad gorau posibl i'r DU, gan gydnabod pwysigrwydd cydweithio agos â Gweriniaeth Iwerddon i gryfhau bioddiogelwch ar gyfer Iwerddon gyfan.

Mae'n bwysig nodi bod y llywodraeth wedi amlinellu dull newydd ar gyfer trefniadau yng nghyswllt Gogledd Iwerddon yn y Papur Gorchymyn 'Northern Ireland Protocol: the way forward', a gyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf 2021. Mae'r Papur Gorchymyn yn nodi'r cynigion a fydd yn sicrhau bod y prosesau sydd ar waith ar gyfer planhigion a chynnyrch planhigion sy'n symud o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn seiliedig ar risgiau go iawn, ac yn cael gwared ar rwystrau diangen i'r rheini sy'n aros yn y DU gan ddefnyddio prosesau cyfraith yr UE yn llawn ar gyfer y rheini sy'n symud ymlaen i'r UE. Mae blaenoriaethau'r Strategaeth

Bioddiogelwch Planhigion newydd yn cyd-fynd â'r cynigion hyn h.y. cynnal ein safonau bioddiogelwch domestig uchel ar yr un pryd â sicrhau bod masnach yn rhedeg mor esmwyth â phosibl.

Mae angen i'n strategaeth newydd ganolbwyntio ar gefnogi ein tyfwyr a'n meithrinfeydd domestig, gan wella bioddiogelwch a sicrhau bod ein defnyddwyr yn parhau i fwynhau mynediad at amrywiaeth eang o gynnyrch.

Mae'n bleser gennym agor yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn ar y Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion newydd ar gyfer Prydain. Mae angen i bawb sydd â diddordeb mewn iechyd ein planhigion, ac sy'n elwa ohono, ymrwymo i roi bioddiogelwch wrth galon popeth a wnawn, ac edrychwn ymlaen at glywed eich syniadau ynghylch sut y gallwn gyflawni hyn.

**Y Gwir Anrhydeddus
Arglwydd Benyon**

Julie James AS

Màiri McAllan ASA

Y Gweinidog dros Faterion
Gwledig
a Bioddiogelwch

Y Gweinidog Newid
Hinsawdd, Llywodraeth
Cymru

Gweinidog yr Amgylchedd a
Diwygio Tir, Llywodraeth yr
Alban

Cyflwyniad

Yn 2012, canfuwyd clefyd coed ynn am y tro cyntaf yn y DU. Cyrhaeddodd y clefyd ffyngaid hwn, sy'n aml yn angheuol i'n rhywogaeth onnen frodorol, nid yn unig yn naturiol fel sborau a gariwyd gan y gwynt, ond hefyd drwy fewnforio coed ynn wedi'u heintio. Mae'r mwyafrif o ardaloedd y DU bellach wedi gweld gostyngiad mewn coed ynn. Mae ymchwil yn awgrymu y gallai dros 100 miliwn o'n coed farw o'r clefyd hwn ac y bydd yn costio

oddeutu £15 biliwn i'n heconomi dros y 100 mlynedd nesaf (o ran costau clirio a cholli gwasanaethau ecosystemau⁶).

Roedd dyfodiad y pathogen dinistriol hwn ar ein glannau yn foment bwysig, a arweiniodd at newid sylweddol yn ymwybyddiaeth y cyhoedd ac agwedd y llywodraeth tuag at fioggiogelwch planhigion. Roedd Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain 2014 yn nodi ymateb y llywodraeth, ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn erbyn yr argymhellion hynny dros y saith mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r bygythiad bioddiogelwch wedi lleihau. Mae bioddaearyddiaeth Ynysoedd Prydain yn golygu y bydd rhywfaint o blâu a chlefydau planhigion yn parhau i ddod yma'n naturiol (enghraifft ddiweddar yw'r chwilen risgl sbriws (*Ips typographus*) a ddarganfuwyd yng Nghaint yn 2018 ac sydd wrthi'n cael ei dileu ar hyn o bryd), ond mae newid hinsawdd a globaleiddio cynyddol o ran teithio a masnach yn dwysáu'r risg cefndirol hwn, ac mae bygythiadau i iechyd planhigion yn cynyddu ar draws pob sector, gan gynnwys amaethyddiaeth, garddwriaeth a choedwigaeth. Ar ben hynny, dydy'r hyn a gynhrychir ym Mhrydain ddim yn bodloni'r galw am blanhigion a chynnyrch planhigion ar hyn o bryd. Mae masnach mewn planhigion a deunyddiau planhigion yn hanfodol am nifer o resymau fel diogelu'r cyflenwad bwyd, felly mae'n hanfodol bod y llywodraeth a diwydiant yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn rheoli a lleihau'r bygythiad o fewnforio plâu a chlefydau.

Rhaid i ni barhau i ddatblygu a chryfhau ein trefn bioddiogelwch planhigion os ydym am atal plâu a chlefydau planhigion newydd rhag cael eu mewnforio neu ymsefydlu, a diogelu'r manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y mae planhigion iach yn eu darparu. Rhaid i'n dull gweithredu newydd ar gyfer Prydain hefyd weithio mewn partneriaeth â strategaethau cysylltiedig yr amgylchedd, coed, coedlannau a choedwigaeth y tair gwlad, a chyda diwydiant, tiffeddianwyr, Cyrff Anllywodraethol, y gymuned wyddonol a'r cyhoedd.

Pam bod planhigion yn bwysig?

Yn y DU, amcangyfrifir bod ein planhigion a'n coed yn werth £10.5 biliwn i gymdeithas bob blwyddyn⁷. Mae planhigion iach o fudd i bobl, yr amgylchedd a'r economi. Mae ein planhigion yn chwarae llawer o rolau pwysig yn ein bywydau, gan gynnwys y canlynol:

- **Diogelu'r cyflenwad bwyd** - mae cyflenwad bwyd y byd yn dibynnu ar oddeutu 150 o rywogaethau planhigion⁸.

⁶ Ffynhonnell: Hill, Jones, Atkinson, Hector, Hemery & Brown, Current Biology 29, R1–R3, Mai 6, 2019

⁷ Ar sail casgliad o amcangyfrifon wedi'u cyhoeddi o amrywiaeth o ffynonellau sydd wedi'u casglu/diweddarau gan economegwyr iechyd planhigion Defra (manylion llawn i'w cyhoeddi yn strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain 2021)

⁸ International Development Research Centre, Canada, 2010

- **Iechyd a lles** - mae tystiolaeth yn awgrymu bod byw mewn ardaloedd â mannau gwyrdd yn gysylltiedig â llesiant gwell a chanlyniadau iechyd gwell. Ymysg y grwpiau incwm is, amcangyfrifir bod 1,300 o farwolaethau ychwanegol yn digwydd bob blwyddyn mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth o fannau gwyrdd yn wael⁹.
- **Dal a storio carbon** - mae planhigion yn gweithredu fel dalfa garbon ac yn lleihau allyriadau carbon net ac yn helpu i arbed ynni. Gall coeden aeddfed amsugno hyd at 150kg o garbon deuocsid (CO₂) y flwyddyn¹⁰.
- **Oeri** - gall lleoli coed yn strategol mewn dinasoedd helpu i oeri'r aer rhwng 2 ac 8 gradd Celsius¹⁰. Mae hyn yn lleihau'r effaith "ynys wres" drefol ac yn helpu cymunedau trefol i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- **Lliniaru llifogydd** - gall coeden fytholwyrdd aeddfed atal mwy na 15,000 litr o ddŵr y flwyddyn¹⁰, gan helpu i leihau'r risg o lifogydd.
- **Llygredd aer** - mae ein planhigion a'n coed hefyd yn amsugno llygryddion niweidiol. Cafodd tua 1.3 biliwn kg o lygryddion yn yr aer eu hamsugno gan goedlannau, planhigion, glaswelltiroedd a llystyfiant arall yn y DU yn 2015¹¹.
- **Llygredd sŵn** - mae coed yn amsugno sain ac yn lleihau llygredd sŵn. Gall plannu "clustogau sŵn" sy'n cynnwys coed a llwyni leihau'r sŵn rhwng pump a deg desibel a lleihau'r sŵn i'r glust ddynol gan oddeutu 50%¹².
- **Bioamrywiaeth** - mae planhigion a choed yn darparu cynefinoedd hanfodol ar gyfer nifer fawr o wahanol rywogaethau – er enghraifft, yn fwy nag unrhyw goedden frodorol arall, mae'r goedden dderw frodorol (*Quercus petraea* a *Quercus. robur*) yn cynnal tua 2,300 o rywogaethau gan gynnwys 38 o rywogaethau adar, 229 o fryoffytau, 108 o ffyngau, 1178 o greaduriaid di-asgwrn-cefn, 716 o gen, a 31 o famaliaid¹³.
- **Economi** - yn y DU, mae masnach mewn planhigion a nwyddau planhigion (nwyddau crai a nwyddau wedi'u prosesu'n syml) yn werth dros £14bn y flwyddyn, ac mae £13bn o'r rhain yn fewnforion i'r DU¹⁴. Mae coedwigaeth a phrosesu coed cynradd hefyd yn sectorau hanfodol yn y DU sy'n cynhyrchu £2.5 biliwn o Werth Ychwanegol Gros y flwyddyn, o 3.2m hectar o goedlannau¹⁵.
- **Cyflogaeth** - amcangyfrifir bod oddeutu 43,000 o fusnesau garddwriaeth a thirlunio yn cyflogi 260,000 o bobl yn y DU. Mae 26,000 o fusnesau yn y DU hefyd sy'n canolbwyntio ar gnydau amaethyddol, ac maent yn cyflogi 122,000 o bobl¹⁶.
- **Twristiaeth** – yn 2017, roedd gwerth £2.9bn o wariant twristiaid yn cael ei briodoli i

⁹ [Mitchell, R a Popham, F. 2008. 'Effect of exposure to natural environment on health inequalities: an observational population study'.](#)

The Lancet, cyf. 372, rhifyn 9650, tud. 1655-1660 a gyflwynwyd ar [NHS Forest](#)

¹⁰ Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig, 2016

¹¹ [UK air pollution removal. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018](#)

¹² [Noise abatement. Forest Research](#)

¹³ [PuRpOsE: Protecting Britain's iconic oak trees and their biodiversity. James Hutton Institute](#)

¹⁴ [Plant Health – international trade and controlled consignments, 2015-2019. Defra, 2020 Mae'r nwyddau a gynhwysir yn rhai y gellir eu disgrifio fel rhai crai neu rai sydd wedi'u prosesu'n syml](#)

¹⁵ [Science and Innovation Strategy for Forestry in GB, 2020](#)

¹⁶ [Sector yr Amgylchedd a Diwydiannau'r Tir yn y DU: Skills Assessment Update. Gwanwyn 2014](#)

barciau a gerddi, ac roedd ymwelwyr rhyngwladol â'r DU yn gyfrifol am dros dri chwarter y gwariant hwnnw¹⁷.

Beth a olygwn wrth fioggiogelwch a pham mae'n bwysig?

Mae bioggiogelwch yn cyfeirio at gyfres o ragofalon sy'n ceisio atal organebau niweidiol rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu. Mae'r rhain yn cynnwys plâu coed anfrodorol, fel pryfed, ac organebau sy'n achosi clefydau, a elwir yn bathogenau, fel rhai mathau o facteria a ffyngau¹⁸. Mae bioggiogelwch yr un mor berthnasol i iechyd planhigion ag y mae i iechyd anifeiliaid a phobl.

Mae bioggiogelwch planhigion yn bwysig am ei fod yn ymwneud ag amddiffyn planhigion a'r holl werthoedd maen nhw'n eu darparu. Yn y pen draw, rydyn ni'n gwbl ddibynol ar blanhigion i fyw – maen nhw'n cynhyrchu'r ocsigen rydyn ni'n ei anadlu a bron yr holl fwyd rydyn ni'n ei fwyta. Maent hefyd yn harddu ein tirweddau ac yn darparu cynefinoedd a bwyd i gynnal ein bywyd gwyllt, ac maent yn hanfodol i'n hiechyd a'n lles, ein cymunedau a'n heconomi – felly mae'n bwysig ein bod yn eu cadw'n iach.

Mae gan glefydau planhigion fel Xylella y potensial i gostio miliynau o bunnoedd y flwyddyn i drethdalwyr y DU os bydd yn cyrraedd y wlad, a dyna pam ei fod yn hanfodol i bob un ohonom gyfrannu at gefnogi bioggiogelwch ac amddiffyn iechyd planhigion.

Pam mae angen i'r llywodraeth ymyrryd?

Mae tystiolaeth gynyddol o'r effaith ddinistriol y mae plâu a chlefydau planhigion yn ei chael. Rhwng 1970 a 2013, credwyd bod 267¹⁹ o blâu planhigion anfrodorol wedi ymsefydlu ym Mhrydain. Ledled Ewrop, mae dwy ran o bump (42%) o rywogaethau coed brodorol mewn perygl rhanbarthol o ddiflannu'n llwyr²⁰. Mae Cofrestr Risgiau i Iechyd Planhigion y DU yn cynnwys manylion 127²¹ o blâu a phathogenau planhigion nad ydynt yn bresennol yn y DU ar hyn o bryd ond yr ystyrir eu bod yn peri risg sylweddol.

Mae delio ag achosion yn gostus i'r llywodraeth ac i'r economi ehangach. Er enghraifft, yn

¹⁷ [The Economic Impact of Ornamental Horticulture and Landscaping in the UK: An independent report by Oxford Economics for the Ornamental Horticulture Roundtable Group, 2018](#)

¹⁸ [Atal cyflwyno a lledaenu plâu a chlefydau coed - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

¹⁹ [Smith R.M. et al. 2018, 'Recent trends in non-native, invertebrate, plant pest establishments in Great Britain, accounting for time lags in reporting'. Agricultural and Forest Entomology, cyf. 20, tud 496-504](#)

²⁰ [Analysis of European Red List of Trees, 2019](#)

²¹ Dadansoddiad o [Gofrestr Risgiau i Iechyd Planhigion y DU](#), Defra sy'n seiliedig ar blâu/clefydau gyda sgôr bendant o 60+

ogystal â'r enghraifft o glefyd coed ynn a nodwyd yn gynharach:

- Roedd dileu achos bach o chwilen hirgorn Asia (*Anoplophora glabripennis*) yng Nghaint rhwng 2012 a 2019 wedi costio tua £2 filiwn²². Mae'r gost o reoli'r un pryfyn yn yr Unol Daleithiau wedi costio tua \$373 miliwn²³.
- Mae rheoli achosion o *Phytophthora ramorum* yn y DU wedi costio £23 miliwn rhwng 2009 a 2014, ac amcangyfrifir mai'r gwariant blynyddol ar reoli effeithiau Phytophthora yw tua £1.5 miliwn y flwyddyn ers hynny²⁴.
- Mae *Xylella* (*Xylella fastidiosa*), bacteriwm cwarantîn planhigion nad yw'n bresennol yn y DU ar hyn o bryd, ond sy'n bresennol mewn rhannau o'r Eidal, Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal, yn gallu byw ar amrywiaeth eang o rywogaethau gan gynnwys coed olewydd a chyfres o blanhigion addurnol fel y rhoswydden a'r lafant. Mae efelychiad o'r effaith yn awgrymu bod gan *Xylella* y potensial i achosi colledion cynhyrchu blynyddol o 5.5 biliwn ewro mewn senario lle byddai'n lledaenu ar draws yr UE gyfan²⁵.

Mae'r costau cyffredinol i gymdeithas o reoli'r plâu a'r clefydau hyn yn dangos cost-effeithiolrwydd dull bioddiogelwch sy'n ceisio ymyrryd yn gynnwys naill ai i atal achosion rhag digwydd neu i leihau maint yr achosion ac felly'r gost reoli barhaus.

Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio'r drefn bresennol a'r mesurau rydym wedi'u rhoi ar waith ers cyhoeddi 'Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion ar gyfer Prydain' (2014). Hoffem gael eich barn ar sut i gryfhau'r dull hwn, gan gynnwys eich barn ynghylch ein gweledigaeth newydd ac elfennau allweddol y weledigaeth honno ar gyfer y dyfodol. Atebwch bob cwestiwn yn ei dro.

Hefyd, rydym yn gofyn am farn dechnegol ar fesurau bioddiogelwch ychwanegol ar gyfer rhywogaethau o goed risg uchel. Mae'r cwestiynu ar gyfer hwn ar gael yn Atodiad A.

²² [Fielding et al \(2016\) History and development of an isolated outbreak of Asian longhorn beetle *Anoplophora glabripennis* \(Coleoptera: Cerambycidae\) in southern England. *Agricultural & Forest Entomology*](#)

²³ Costau a amcangyfrifir o \$373 miliwn. Ffynhonnell, Haack et al (2010): Managing Invasive Populations of Asian Longhorned Beetle and Citrus Longhorned Beetle: A Worldwide Perspective, *Annual Review of Entomology*, Cyf. 55: 521-546

²⁴ Phytophthora: Adroddiad ar raglen 5 mlynedd a ariennir gan Defra (2009 – 2014)

²⁵ [Y Comisiwn Ewropeaidd Rhagfyr 2019](#)

Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Rydym yn cynnig y weledigaeth ganlynol i gryfhau ein dull o ymdrin â bioddiogelwch planhigion ym Mhrydain:

Diogelu planhigion Prydain drwy bartneriaeth gadarn rhwng y Llywodraeth, diwydiant a'r cyhoedd, gyda'r nod o leihau a rheoli'r risgiau a achosir gan blâu a phathogenau planhigion a hwyluso masnach ddiogel.

O dan y weledigaeth hon, rydym wedi datblygu pedwar canlyniad allweddol, ac mae gan bob un gyfres o gamau i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol. Mae'r ddogfen hon yn gwahodd eich sylwadau ar bob un o'r canlyniadau yn ei dro.

Canlyniad 1: Trefn bioddiogelwch o'r radd flaenaf

Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i deilwra a chryfhau ein hymateb i atal a rheoli plâu a phathogenau sy'n fygythiad i iechyd planhigion Prydain rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu.

Canlyniad 2: Cymdeithas sy'n gwerthfawrogi planhigion iach

Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd planhigion a choed iach ac annog pobl i fabwysiadu ymddygiad cyfrifol ar draws cymdeithas.

Canlyniad 3: Cadwyn gyflenwi planhigion bioddiogel

Y Llywodraeth a diwydiant yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi cadwyn gyflenwi planhigion bioddiogel.

Canlyniad 4: Gallu technegol gwell

Meithrin galluogrwydd ar sail iechyd planhigion a defnyddio gwyddoniaeth a thechnoleg arloesol a datblygol i ddal i fyny â bygythiadau sy'n newid a sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y dyfodol.

Cwestiynau 7-8

7. Sut gall y Llywodraeth, diwydiant a'r cyhoedd weithio'n fwy effeithiol â'i gilydd i warchod planhigion Prydain?

- Eglurwch mewn dim mwy na 250 gair

8. Pa un o'r materion canlynol ydych chi'n meddwl sy'n peri'r risg fwyaf i iechyd planhigion? Rhowch yr opsiynau canlynol yn nhrefn y risg, lle mai 1 yw'r risg uchaf i iechyd planhigion a 6 yw'r risg isaf i iechyd planhigion.

- Mewnforion masnach
- Mewnforion personol e.e. mewn bagiau teithwyr
- Newid yn yr hinsawdd
- Dim digon o ymwybyddiaeth o blâu a chlefydau planhigion
- Ychydig iawn o wybodaeth am arferion bioddiogelwch da
- Diffyg cymhelliant i sefydliadau ac unigolion fabwysiadu ymddygiad ac arferion bioddiogel

Canlyniad 1: Trefn bioddiogelwch o'r radd flaenaf

Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd er mwyn i ni allu teilwra a chryfhau ein hymateb i atal plâu a phathogenau sy'n fygythiad i iechyd planhigion Prydain rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu.

Sylwer: Gan adeiladu ar y fframwaith rheoleiddio a'r gweithgareddau a nodir isod, rydym hefyd yn lansio ymgynghoriad technegol ar fesurau bioddiogelwch ychwanegol ar gyfer rhywogaethau o goed risg uchel. Mae hwn yn edrych ar y risgiau bioddiogelwch penodol sy'n gysylltiedig â mewnfario coed a p'un a ddylid cyflwyno mesurau pellach yn y dyfodol. I gwblhau'r ymgynghoriad technegol hwn, a fyddech cystal ag ateb y cwestiynau yn **Atodiad A** hefyd.

Fframwaith rheoleiddio

O dan y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Planhigion (IPPC), mae'n ofynnol i'r DU sefydlu Sefydliad Cenedlaethol ar Ddiogelu Planhigion (NPPO). Mae'r swyddogaeth NPPO hon yn cael ei chyflawni gan Defra ar ran y DU, ac mae Defra'n cynrychioli'r DU mewn fforymau rhyngwladol ac Ewropeaidd.

Caiff yr NPPO ei gefnogi gan Wasanaeth Iechyd Planhigion y DU (PHS), sy'n cynnwys Defra, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Daera, y Comisiwn Coedwigaeth a'u hasiantaethau cyfansoddol a chyrrff cyflenwi (e.e. yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Forest Research and Fera Science Ltd ac ati).

Un o brif gyfrifoldebau'r Gwasanaeth Iechyd Planhigion yw diogelu adnoddau planhigion a hwyluso masnach ryngwladol ddiogel ar gyfer nwyddau planhigion; gwneir hynny drwy sefydlu mesurau ffytoiechydol a'u rhoi ar waith. Mae ein trefn reoleiddio yn gwahardd neu'n rheoli mewnfario planhigion risg uchel, deunydd plannu, pren a chynnyrch pren (gan gynnwys coed tân). Ymysg y diweddariadau diweddaraf i ddeddfwriaeth mae:

- Rhoi Rheoliad Iechyd Planhigion newydd 2016/2031 a Rheoliad Rheolaethau Swyddogol 2017/625 ar waith - roedd y ddau ohonynt yn cryfhau'r ddeddfwriaeth flaenorol ac fe ddaeth yn gyfraith yr UE a ddargedwir. Fe'u diwygiwyd i ganolbwyntio ar

Brydain pan wnaethon ni adael yr UE²⁶. Mae'r rheoliadau'n cynnwys:

- gofynion newydd ar gyfer cofrestru pob gweithredydd proffesiynol (y rheini sy'n cynhyrchu, yn storio, yn symud neu'n gwerthu planhigion a chynnyrch planhigion).
 - cynnydd yn nifer y nwyddau sydd angen tystysgrif ffytoiechydol.
 - dull mwy rhagofalus o ymdrin â llifoedd masnach, sy'n gwahardd mewnfario planhigion cynnal 'risg uchel' dros dro.
 - gofynion newydd ar gyfer 'plâu â blaenoriaeth' fel y tyllbryf onn emrallt, sy'n cynnwys arolygon blynyddol a gwaith cynllunio wrth gefn.
- Yn 2020, cafodd y pwerau i roi trefn sancsiynau sifil ar waith eu cynnwys yn neddfwriaeth Cymru a Lloegr. Bydd y drefn hon yn ychwanegu at yr adnoddau gorfodi sydd ar gael i archwilwyr. Mae cynlluniau ar y gweill i ymgynghori ar y manylion yn y dyfodol.
 - Ym mis Mawrth 2021, roedd Offeryn Statudol newydd yn gorfodi mesurau llymach yn erbyn *Xylella* i leihau'r risg iddo gael ei gyflwyno i Brydain²⁷.

Rheoliadau Iechyd Planhigion ar ôl ymadael â'r UE

Ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Rhagfyr 2020, mae mesurau iechyd planhigion wedi'u hadolygu a'u hail-gwmpasu i ganolbwyntio ar risg bioddiogelwch Prydain.

Er mwyn helpu busnesau i addasu i ofynion newydd yr UE-DU, rydym yn cyflwyno'r mesurau newydd fesul cam ar gyfer mewnfario planhigion a deunyddiau planhigion yr UE²⁸:

- **Cam 1** (Dechreuodd ar 1 Ionawr 2021 a bydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021): Ar gyfer nwyddau blaenoriaeth uchel yr UE mae angen tystysgrif ffytoiechydol, rhaghysbysiad ac archwiliad ffisegol mewn cyrchfan cofrestredig mewndirol.
- **Cam 2** (Bydd yn dechrau ar 1 Ionawr 2022 ac yn dod i ben ym mis Mawrth 2022): Mae angen tystysgrif ffytoiechydol a rhaghysbysiad ar gyfer mwy o nwyddau'r UE. Bydd archwiliadau ffisegol o nwyddau blaenoriaeth uchel yn symud o gyrchfannau i Safleoedd Rheoli'r Ffin (BCPs). Nid oes angen archwiliadau ffisegol ychwanegol. (Efallai y bydd angen trefniadau ar wahân ar gyfer porthladdoedd sy'n wynebu'r gorllewin yng Nghymru a'r Alban, manylion i ddilyn)

²⁶ Mae'r Rheoliad Iechyd Planhigion yn cael ei orfodi a'i gyflwyno gan Lywodraeth yr Alban, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, y Comisiwn Coedwigaeth ac awdurdodau lleol.

²⁷ [Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ac Amodau Ffytoiechydol \(Diwygio\) 2021](#)

²⁸ [Canllawiau: Mewnfario planhigion a chynnyrch planhigion o'r UE i Brydain a Gogledd Iwerddon](#)

- **Cam 3** (Bydd yn dechrau ym mis Mawrth 2022): Mae angen tystysgrif ffytoiechydol, rhaghysbysiad ac archwiliad ffisegol ar sail risg mewn BCP ar gyfer pob planhigyn a chynnyrch a reoleiddir gan yr UE. (Efallai y bydd angen trefniadau ar wahân ar gyfer porthladdoedd sy'n wynebu'r gorllewin yng Nghymru a'r Alban, manylion i ddilyn)

Rydym yn dylunio ac yn adeiladu seilwaith BCP newydd ar y ffin ac yn gweithio gyda'r BCPs presennol drwy ddyrannu a dosbarthu'r Gronfa Buddsoddi mewn Porthladdoedd i ehangu a gwella'r cyfleusterau presennol ar y ffin, a bydd hynny'n cryfhau ein gallu i gyflawni rheolaethau swyddogol. Mae ein harchwilwyr ar y ffin yn gweithio'n agos gydag adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth er mwyn darparu gwasanaeth cydweithredol effeithiol.

Ers gadael yr UE, bu'n rhaid cynnal mwy o archwiliadau iechyd planhigion ar nwyddau sy'n cael eu mwneforio o'r UE i'r DU, ac i archwilio a chyhoeddi tystysgrifau ffytoiechydol ar gyfer allforio nwyddau i'r UE. Rydym am sicrhau bod busnesau'n gallu parhau i fasnachu â'r UE. I gefnogi hyn, rydym wedi cyflogi mwy o archwilwyr iechyd planhigion.

Bydd y broses ar gyfer anfon planhigion a chynnyrch planhigion i'r UE yr un fath â'r broses flaenorol ar gyfer eu hanfon i wledydd y tu allan i'r UE²⁹.

Rheolaethau ar fewnforion personol ar ôl ymadael â'r UE

Mae rheolaethau ar fewnforion personol o'r UE ac ar deithwyr yr UE yn cael eu cyflwyno'n raddol i fod yn gyson â'r rheolaethau ar nwyddau masnachol. Mae hyn yn cynnwys nwyddau sy'n dod i mewn i Brydain mewn bagiau teithwyr, drwy'r post neu gyda gwasanaeth cludo. Mae'r dull fesul cam hwn yn golygu bod yn rhaid cael tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer mwneforion personol o nwyddau blaenoriaeth uchel yr UE o 1 Ionawr 2021. Bydd hefyd angen tystysgrif ffytoiechydol ar gyfer mwneforion personol o bob planhigyn a chynnyrch planhigion a reoleiddir sy'n cyrraedd o'r UE o 1 Ionawr 2022 ymlaen.

Gan fod y rheolaethau iechyd planhigion ar fewnforion personol o'r UE yn newid, byddwn yn gwella'r canllawiau cyhoeddus ar reolaethau iechyd planhigion ar gyfer mwneforion personol. Mae'r canllawiau diweddaraf ar gael ar Borth Gwybodaeth Iechyd Planhigion y DU.

²⁹ [Canllawiau ar gyfer allforio planhigion a chynnyrch planhigion o Brydain a Gogledd Iwerddon](#)

Protocol Gogledd Iwerddon

Yn ystod trafodaethau Ymadael â'r UE, cytunodd yr UE a'r DU ar Brotocol Gogledd Iwerddon³⁰ lle na fyddai unrhyw archwiliadau newydd ar nwyddau sy'n croesi'r ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Nod y protocol hwn yw osgoi ffin galed rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'n adeiladu ar yr arferion presennol a sefydlwyd i gynnal Un Uned Epidemiolegol ar ynys Iwerddon. Mae'n sicrhau cyfanrwydd marchnad sengl yr UE ar gyfer nwyddau, yn hwyluso mynediad am ddim ar gyfer nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon i farchnad Prydain, ac yn cefnogi cynnwys nwyddau o Ogledd Iwerddon mewn trefniadau masnach rydd rhwng y DU a thrydydd gwledydd. Mae hyn yn cynnal polisi'r llywodraeth o fynediad dirwysr i'r farchnad mewn perthynas â Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon.

Nid oes newidiadau i'r ffordd mae planhigion a chynnyrch planhigion yn cael eu mewnforio i Ogledd Iwerddon o wledydd y tu allan i'r UE. Gall mewnfornion barhau yn yr un ffordd ag o'r blaen.

Gweithgarwch cyn y ffin

Y ffordd orau o atal plâu a chlefydau rhag cyrraedd ein ffiniau yw sicrhau bod cynhyrchwyr ac awdurdodau dramor yn defnyddio mesurau rheoli effeithiol. I gyflawni hyn, mae'r DU yn gweithredu o fewn cyfundrefn a bennir gan gytundebau rhyngwladol, gan gynnwys ein cytundeb newydd gyda'r UE.

Cydweithredu rhyngwladol

Mae gan y DU rôl flaenllaw o ran gyrru safonau rhyngwladol uwch fyth, gan ddylanwadu ar reoliadau yn Ewrop a thu hwnt, i sicrhau bod pwyslais ar ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar risgiau ac ar dystiolaeth. Mae ein gwyddonwyr a'n harbenigwyr technegol yn cydweithio'n frwd â nifer o grwpiau a sefydliadau rhyngwladol, gan gynnwys y Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO), y Sefydliad Ewropeaidd a'r Canoldir ar Ddiogelu Planhigion (EPPO), y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Planhigion (IPPC) a'i grwpiau a phaneli arbenigol, ac mae ein cyfraniad yn ein galluogi i negodi safonau rhyngwladol newydd a gwell er budd byd-eang.

Mae gennym ddulliau effeithiol o sganio'r gorwel ac archwilio gwybodaeth yn systematig er mwyn canfod bygythiadau posibl. Mae ein grŵp risgiau i iechyd planhigion y DU yn gwerthuso ac yn monitro bygythiadau drwy ddefnyddio Cofrestr Risgiau i Iechyd

³⁰ [Protocol Gogledd Iwerddon](#)

Planhigion y DU³¹ sy'n cynnwys manylion dros 1000 o blâu a phathogenau planhigion. Maent yn asesu nodweddion biolegol plâu a phathogenau, yn gwerthuso effeithiolrwydd y strategaethau ymyrryd ac yn ystyried effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol posibl. Mae risgiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u blaenoriaethu ar gyfer gweithredu arnynt er mwyn sicrhau ein bod yn dal i weithredu mewn ffordd sydd wedi'i thargedu ac sy'n gost-effeithiol. Rydym yn rhannu gwybodaeth yn rhyngwladol drwy gydweithio ar ddadansoddi risg ac yn gweithio gyda diwydiant i gael gwybodaeth fasnachol. Cyhoeddir Dadansoddiadau o Risgiau Pla y DU at ddibenion ymgynghori ar y Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion³².

Gweithio gydag allforwyr ym Mhrydain a ledled y byd

Rydym yn cynnal dirprwyaethau ac ymweliadau gydag allforwyr ledled y byd i wella cydweithrediad â gwledydd eraill a sicrhau bod ein partneriaid masnachu yn deall ein gofynion ffytoiechydol. Yn y dyfodol, bydd NPPO y DU yn cynnal archwiliadau mewn gwledydd lle nodwyd bod problemau ffytoiechydol er mwyn cefnogi'r wlad sy'n allforio i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a rhoi arferion gorau ar waith. Pan fo'n briodol, bydd archwiliadau hefyd yn cael eu cynnal mewn ymateb i geisiadau am fynediad newydd i'r farchnad.

Mae Defra yn gweithio gyda'n cynhyrchwyr a'n hallforwyr ein hunain yng Nghymru a Lloegr drwy'r Cynllun Masnachwyr Archwiliedig Iechyd Planhigion (PHEATS), a lanswyd yn 2020. Mae'n gynllun hwyluso masnach ar gyfer allforio ffrwythau, llysiau a blodau i'w torri i'r UE a Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn caniatáu i archwiliadau gael eu cynnal gan unigolyn/unigolion awdurdodedig yn hytrach nag archwilydd iechyd planhigion swyddogol.

Gweithgarwch ar y ffin

Mae ein harchwilwyr yn cynnal archwiliadau wedi'u targedu o fewnforion coed a phlanhigion wedi'u rheoli a heb eu rheoli, gan gynnwys deunyddiau pecynnu pren, mewn porthladdoedd a meysydd awyr i ganfod unrhyw broblemau ag iechyd planhigion yn gynnar. Maent hefyd yn cydweithio â staff Llu'r Ffiniau mewn sianeli teithwyr yn y meysydd awyr a'r porthladdoedd fferi i godi ymwybyddiaeth o faterion bioddiogelwch. Mae ein gwaith gyda Llu'r Ffiniau a masnach yn ein helpu i gael mwy o wybodaeth am lwybrau risg. Mae'r wybodaeth hon yn bwydo i mewn i asesiadau risg ac yn ein helpu i wneud yn siŵr bod y gweithgarwch yn cael ei dargedu at yr ardaloedd sydd â'r risg fwyaf.

³¹ [Cofrestr Risgiau i Iechyd Planhigion y DU](#)

³² [Dadansoddiadau o risgiau pla](#)

Mae'r Weithdrefn ar gyfer Cais Electronig am Dystysgrifau gan yr Arolygiaeth Marchnata Garddwriaeth (PEACH) yn adnodd ar-lein y mae'n rhaid ei ddefnyddio i fewnforio mathau penodol o blanhigion, ffrwythau a llysiau i Brydain (nid yw'r system PEACH yn cynnwys Gogledd Iwerddon). Cyflwynir system TG newydd a fydd yn symleiddio'r broses mewnforio ac allforio yn 2021.

Gweithgarwch mewndirol

Pasbortau Planhigion a Goruchwyliaeth Fewndirol

Er bod eithrio plâu a phathogenau planhigion niweidiol yn flaenoriaeth allweddol, rydym hefyd am sicrhau bod unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn fewndirol yn cael eu canfod cyn gynted â phosibl a bod mesurau ar waith i atal plâu a phathogenau sy'n bresennol mewn rhai ardaloedd ond nid mewn ardaloedd eraill rhag lledaenu ymhellach (e.e. Gwyfyn ymdeithiwr y derw), a sicrhau nad oes lefelau annerbyniol o blâu a phathogenau sefydledig a reoleiddir (e.e. *Phytophthora lateralis*) ar ddeunydd plannu sy'n cael ei fasnachu. Mae hyn yn gofyn am system gadarn i roi sicrwydd ynghylch statws iechyd planhigion sy'n cael eu symud o fewn Prydain, wedi'i hategu gan wyliaeth swyddogol a goruchwyliaeth o fath arall.

Dyna pam y rheolir symudiadau mewnol planhigion a chynnyrch planhigion a reoleiddir gan y system pasbortau planhigion. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i blanhigion y bwriedir eu plannu at ddibenion masnachol (ac mewn rhai achosion pan fyddant yn cael eu gwerthu i ddefnyddwyr olaf) gael pasbort planhigion, a gyhoeddir gan fusnes sydd wedi'i awdurdodi'n swyddogol, sy'n cadarnhau bod y gofynion rhagnodedig o ran plâu a chlefydau wedi'u bodloni, ac sy'n sicrhau y gellir eu holrhain os bydd unrhyw broblemau'n codi yn y gadwyn gyflenwi. Mae'r gofyniad i ddarparu pasbortau planhigion i lawr i'r lefel manwerthu, gan gynnwys wrth werthu ar-lein, yn golygu y bydd gan bob masnachwr planhigion oblygiadau o ran iechyd planhigion, boed yn feithrinfa, yn dirluniwr, yn fanwerthwr ar y stryd fawr, neu'n gwerthu ar-lein yn unig.

Mae pasbortau planhigion yn wahanol i dystysgrifau ffytoiechydol (sy'n rheoli symudiadau rhwng trydydd gwledydd ac sy'n cael eu cyhoeddi gan yr awdurdod iechyd planhigion) ac mae'r rhestr o nwyddau sydd angen pasbort planhigion yn fyrrach na'r rhai sydd angen tystysgrif ffytoiechydol. Efallai y bydd gweithredwyr hefyd yn destun Archwiliadau Tymor Tyfu (yn dibynnu ar y planhigion maen nhw'n eu tyfu) i sicrhau nad oes plâu a chlefydau ar eu planhigion ar adegau priodol o'r flwyddyn.

Nid symud planhigion byw a deunyddiau planhigion yw'r unig ffordd mae plâu a phathogenau'n cael eu cyflwyno i ardaloedd newydd. Mae rhai plâu a phathogenau yn cael eu cario gan y gwynt, ac mae eraill yn cael eu cludo mewn deunydd pacio pren neu bridd sy'n gysylltiedig â mewnforion eraill. Felly, rydym yn cynnal archwiliadau ar sail risg

mewn meithrinfeydd ac yn ymgymryd â goruchwyliaeth ehangach mewn amgylcheddau trefol a gwledig i ganfod problemau'n gynnar fel bod modd i'n sectorau amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth adfer yn gyflym pan fydd achosion yn digwydd.

Dros y tair blynedd nesaf, ein nod yw creu system TG iechyd planhigion newydd ar gyfer ein harchwilwyr mewndirol a fydd yn cael ei chyfuno â'n systemau TG newydd ar y ffin ac a fydd yn cefnogi gweithgarwch goruchwyllo mewndirol a'n hymateb brys i achosion. Ar ben hynny, bydd data a gynhyrchir ar y ffin ac yn fewndirol ar gael ar gyfer Cofrestr Risgiau i Iechyd Planhigion sydd wedi'i hailddatblygu. Bydd yn sail i'n dealltwriaeth o risgiau bioddiogelwch, ac yn llywio penderfyniadau bioddiogelwch. Bydd y Gofrestr Risgiau bresennol ar sail plâu yn cael ei hategu gan Gofrestr Risgiau ar sail llwybr sy'n cofnodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â symud planhigion a chynnyrch planhigion.

Parodrwydd a chynlluniau wrth gefn

Mae tystiolaeth o sganio'r gorwel ac asesiadau risg yn ein galluogi i baratoi ar gyfer plâu a phathogenau. Mae gennym gynllun wrth gefn generig ar gyfer iechyd planhigion³³ a chynlluniau wrth gefn sy'n benodol i blâu er mwyn sicrhau ymateb cyflym ac effeithiol os bydd achosion. Nod rhaglenni ymchwil rhyngddisgyblaethol ac adolygiadau parodrwydd yw mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth neu barodrwydd. Er enghraifft, ynghyd â'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC), roedd Defra a Llywodraeth yr Alban wedi cyd-ariannu rhaglen ymchwil BRIGIT gwerth £5m³⁴ sy'n ceisio cynyddu gallu'r DU i ymateb i achosion *Xylella*.

Er mwyn amddiffyn yn well rhag plâu penodol, rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth genedlaethol frys i leihau'r risg o ledaenu o fewn y DU, gan gynnwys, er enghraifft, achosion o'r chwilen risgl sbriws (*Ips typographus*).

Cwestiynau 9-15

9. Ble rydych chi/eich busnes yn cael gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion ar hyn o bryd? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- Chwilio ar y we fy hun
- Dibynnu ar gyngor arbenigol e.e. gan agronomegydd neu archwilydd iechyd planhigion

³³[Cynllun Wrth Gefn Generig ar gyfer Iechyd Planhigion a Gwenyn yn Lloegr](#) a [Chynlluniau wrth gefn iechyd planhigion sy'n benodol i blâu](#)

³⁴ [BRIGIT: Surveillance and response capacity for *Xylella fastidiosa*](#)

- Gwybodaeth gan sefydliadau yn y sector iechyd planhigion e.e. e-bost neu gylchlythyr gan gorff masnach, bwrdd ardollau, sefydliad proffesiynol, elusen, Corff Anllywodraethol, ac ati
- Cyfryngau'r diwydiant e.e. newyddion arbenigol ar-lein
- Cyfryngau cyffredinol e.e. papurau newydd cenedlaethol neu ranbarthol a newyddion ar-lein
- Y Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion³⁵
- Gwefannau'r llywodraeth
- Dim un o'r uchod
- Dydw i ddim yn chwilio am wybodaeth am blâu a phathogenau planhigion

10. Pa wybodaeth am iechyd planhigion a bioddiogelwch ydych chi/eich busnes ei hangen gan y llywodraeth? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- Gwybodaeth am blâu sy'n dod i'r amlwg ledled y byd
- Gwybodaeth am blâu sy'n dod i'r amlwg yn y DU
- Gwybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd yn erbyn plâu penodol
- Gwybodaeth gefndir am ddeddfwriaeth newydd a pham ei bod wedi'i chyflwyno
- Canllawiau wedi'u diweddarau ar y gofynion ar gyfer mewnfurion ac allforion
- Gwybodaeth am arferion bioddiogelwch da
- Gwybodaeth am sut i roi gwybod am blâu a phathogenau hysbysadwy
- Ddim yn berthnasol
- Arall- eglurwch mewn dim mwy na 100 gair beth fyddai'n ddefnyddiol i chi

11. Ydych chi/eich busnes yn teimlo bod gennych chi'r wybodaeth gywir ar hyn o bryd i ddewis cyflenwyr a fydd yn darparu stoc bioddiogel?

- Ydw
 - a. Os ydych chi wedi ateb 'ydw', pa wybodaeth sydd fwyaf defnyddiol? Eglurwch mewn dim mwy na 100 gair
- Nac ydw
 - b. Os mai 'nac ydw' oedd eich ateb, pa wybodaeth fyddech chi'n ei chroesawu sydd ar goll ar hyn o bryd? Eglurwch mewn dim mwy na 100 gair
- Ddim yn berthnasol

³⁵[Y Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion](#)

12. Mae bioddiogelwch yn gyfrifoldeb a rennir, a rhannu gwybodaeth yw'r allwedd i lwyddiant. A fydddech chi'n fodlon ymgysylltu ag eraill i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu bioddiogelwch y DU yn well? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- Byddwn yn fodlon rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill
- Byddwn yn fodlon tynnu sylw pobl eraill at wybodaeth pan fyddaf yn dod yn ymwybodol ohoni
- Byddwn yn fodlon cymryd rhan mewn rhwydwaith o unigolion/sefydliadau sy'n rhannu gwybodaeth

13. Ydych chi'n teimlo eich bod yn gwybod digon am blâu a chlefydau planhigion i allu masnachu'n gyfrifol ac yn unol â'r rheoliadau?

- Ydw
 - a. Os ydych chi wedi ateb 'ydw', pa wybodaeth sydd wedi bod fwyaf defnyddiol. Eglurwch mewn dim mwy na 100 gair
- Nac ydw
 - b. Os mai 'nac ydw' oedd eich ateb, pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch sydd ar goll ar hyn o bryd. Eglurwch mewn dim mwy na 100 gair
- Ddim yn berthnasol

14. Cyn i chi fewnforio planhigion neu gynnyrch planhigion drwy'r post neu yn eich bagiau personol i Brydain, ble fydddech chi'n chwilio am wybodaeth ynghylch y gofynion a chyfyngiadau mewnforio? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- Gov.uk
- Y Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion
- Gwefannau cwmnïau cludo
- Gwefannau trafndiaeth (e.e. meysydd awyrr/ gorsafoedd trên)
- Mewn lleoliadau trafndiaeth (e.e. meysydd awyrr/ gorsafoedd trên)
- Dim un o'r uchod. Fyddwn i ddim yn chwilio am yr wybodaeth hon
- Arall – eglurwch mewn dim mwy na 50 gair

15. Pa mor bwysig yw bioddiogelwch fel ystyriaeth pan fyddwch chi'n penderfynu dod â mewnforion personol o blanhigion a chynnyrch planhigion i Brydain? Dewiswch un opsiwn.

- Pwysig iawn
- Eithaf pwysig
- Ddim yn bwysig iawn
- Ddim yn bwysig
- Ddim yn ystyriaeth

Canlyniad 2: Cymdeithas sy'n gwerthfawrogi planhigion iach

Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd planhigion a choed iach ac annog pobl i fabwysiadu ymddygiad cyfrifol ar draws cymdeithas.

Codi ymwybyddiaeth

Yn yr un modd â'n dull cyffredinol o ymdrin ag iechyd planhigion, rydym yn cydweithio â sefydliadau yn y sector planhigion i ddatblygu a chyflwyno negeseuon ymwybyddiaeth gyhoeddus ar fioggiogelwch planhigion. Y llynedd, mewn cydweithrediad â dros 15 o sefydliadau, fe wnaethom lansio ymgyrch ar gyfer Blwyddyn Ryngwladol Iechyd Planhigion 2020. Roedd hyn yn cynnwys Wythnos Genedlaethol Iechyd Planhigion gyntaf y DU, lansio llyfr gweithgarwch newydd i blant o'r enw 'Izzy the Inspector'³⁶, (sydd hefyd wedi'i gyhoeddi a'i gyfieithu i'r Gymraeg, sef "Anni yr Archwilydd"³⁷) a gwefan ar gyfer y cyhoedd³⁸. Mae Canolfan Iechyd Planhigion yr Alban wedi cyhoeddi cyfres o 5 Egwyddor Allweddol i nodi Wythnos Iechyd Planhigion y DU, ac mae'r rhain yn amlinellu camau pwysig i ddiogelu adnoddau planhigion yr Alban.³⁹

Mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth eraill wedi cynnwys 'Don't Risk It' APHA (a addaswyd o ymgyrch EPPO) a oedd yn annog y cyhoedd i beidio â dod â phlanhigion, blodau, ffrwythau na llysiau yn ôl i'r DU. Roedd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd wedi'u targedu ym meysydd awyr Glasgow, Caeredin a Manceinion yn ogystal â'r prif borthladdoedd.

Mae ymgyrch 'Keep it Clean' y Comisiwn Coedwigaeth hefyd yn rhoi cyngor ymarferol syml i goedwigwyr, ymarferwyr coedyddiaeth, tirlunwyr ac aelodau o'r cyhoedd ar y camau y gallant eu cymryd i helpu i gyfyngu ar ledaeniad plâu a chlefydau. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn codi ymwybyddiaeth drwy Rwydwaith Safleoedd Sentinel Iechyd Planhigion Cymru. Mae ei aelodau'n cynnwys parciau a gerddi ledled Cymru⁴⁰.

Sector addysg

Mae addysg ym mhob oed yn hanfodol er mwyn i bobl feithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd

³⁶ [Llyfr Izzy the Inspector](#)

³⁷ [Anni yr Archwilydd](#)

³⁸ [Plant Health Action](#)

³⁹ [Canolfan Iechyd Planhigion](#)

⁴⁰ [Rhwydwaith Safleoedd Sentinel Iechyd Planhigion Cymru](#)

iechyd planhigion a'r angen am arferion bioddiogelwch da. Mae'r Llywodraeth a'r sector iechyd planhigion wedi cymryd amrywiaeth o gamau i fynd i'r afael â'r lefel isel o wybodaeth a'r prinder sgiliau yn y sector. Hyd yma, rydym ni wedi cymryd nifer o gamau i feithrin gallu, gan gynnwys:

- Cydweithio â Sefydliad Gatsby a'r Gymdeithas Bioleg Frenhinol i ymgorffori clefydau planhigion heintus yng nghwricwlwm TGAU a Safon Uwch.
- Cyflwyno mesurau bioddiogelwch a ffytoiachydol ar gyfer plâu, pathogenau a rhywogaethau ymledol yng nghwricwlwm Prentisiaethau Cenedlaethol ar gyfer gweithredwyr garddwriaeth neu dirlunio lefel 2 a lefel 3.
- Sefydlodd Asiantaeth Cymwysterau'r Alban gymhwyster lefel 4 mewn iechyd planhigion yn 2012. Mae diogelu cnydau hefyd wedi'i gynnwys yng nghwricwlwm Addysg Uwch yr Alban.
- Lansio gwefan gweithredu ar Iechyd Planhigion lle gall y cyhoedd, rhieni ac addysgwyr gael gafael ar adnoddau addysgol ynghylch iechyd planhigion³⁸.
- Cyllido ysgoloriaethau ymchwil israddedig ar lefel Addysg Uwch mewn sefydliadau allweddol ledled y DU. Mae Defra hefyd yn cefnogi Ysgol Haf Gwyddorau Planhigion Gatsby ar gyfer 80 o fyfyrwyr israddedig.
- Gweithio gyda Phrifysgol Harper Adams i ddatblygu gradd Meistr gyntaf y DU ar Batholeg Planhigion, a chyfleoedd cymrodoriaeth i raddedigion er mwyn paratoi myfyrwyr ar gyfer gyrfaedd mewn patholeg planhigion. Yn yr un modd, mae Coleg Gwledig yr Alban bellach yn cynnig gradd Meistr mewn Iechyd Planhigion Cynaliadwy.
- Mae Ymddiriedolaeth Coedwigaeth yr Alban yn rhedeg Cynllun Bwrsariaeth Iechyd Coed yr Alban i gefnogi ymchwil ar blâu a chlefydau coed yn yr Alban.⁴¹
- Mae Cymdeithas Patholeg Planhigion Prydain hefyd yn cynnig amrywiaeth o fwrsariau, cymrodoriaethau a grantiau i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn patholeg planhigion⁴².

⁴¹ [Cynllun Bwrsariaeth Iechyd Coed yr Alban](#)

⁴² Cymdeithas Patholeg Planhigion Prydain (BSPP)

Hyfforddiant proffesiynol

Rydym yn gweithio gyda chyrrff proffesiynol i wreiddio gwell ymwybyddiaeth o iechyd planhigion fel cymhwysedd allweddol mewn hyfforddiant proffesiynol. Mae'r gweithgareddau rydym wedi ymgymryd â nhw yn cynnwys:

- Yn 2016, lansiodd y Gymdeithas Bioleg Frenhinol, ar y cyd â Defra, gofrestr broffesiynol ar iechyd planhigion ar gyfer archwilwyr y llywodraeth a swyddogion cysylltiedig er mwyn gwella'u rhaglen hyfforddi swyddogol i ddarparu gwasanaeth gwell a mwy proffesiynol.
- Mae ein harchwilwyr yn darparu hyfforddiant ar safleoedd yn rheolaidd i'r sectorau planhigion a choedlannau gan gynnwys tîfeddianwyr, rheolwyr, asiantau, contractwyr arbenigol, gwirfoddolwyr a Chyrrff Anllywodraethol.
- Datblygwyd pecyn e-ddysgu 5 modiwl ar fiolddiogelwch y Comisiwn Coedwigaeth gydag APHA, Arboricultural Association a British Association for Landscape Industries. Mae'n darparu gwybodaeth gefndir am faterion biolddiogelwch ynghyd â chanllawiau clir ar y mesurau biolddiogelwch mwyaf effeithiol a phriodol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd.
- Mae'r Gynghrair Iechyd Planhigion yn darparu hyfforddiant ac arweiniad ar ei gwefan Plant Healthy⁴³, gan gynnwys teclyn hunanasesu a phum modiwl dysgu ar-lein sy'n seiliedig ar y Safon Rheoli Iechyd Planhigion a gyhoeddwyd⁴⁴.
- Ym mis Mai 2021, lanswyd hyfforddiant ar-lein ar gyfer gweithredwyr ym Mhrydain sy'n gorfod dosbarthu pasbortau planhigion. Bydd yn helpu gweithredwyr proffesiynol sy'n dymuno cael eu hawdurdodi, neu sydd eisoes wedi'u hawdurdodi i ddsbarthu Pasbortau Planhigion ac i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r system hon. Cyflwynwyd yr hyfforddiant hwn gan Defra, APHA a'r Gymdeithas Crefftwyr Garddwriaethol (HTA)⁴⁵.

Ledled Prydain, mae llawer o sefydliadau wrthi'n datblygu ac yn lansio eu cynlluniau hyfforddiant proffesiynol eu hunain i sicrhau bod eu sectorau'n deall pwysigrwydd biolddiogelwch planhigion. Mae hyn yn cynnwys y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol (RHS) a'r Sefydliad Amaeth a Garddwriaeth (TIAH).

At hynny, mae AHDB yn darparu nifer o adnoddau ar-lein yn eu Llyfrgell Wybodaeth ynghyd â Digwyddiadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar sut mae rheoli plâu a chlefydau yn effeithiol mewn amaethyddiaeth â'r garddwriaeth⁴⁶.

⁴³ [Gwefan Plant healthy](#)

⁴⁴ [Modiwlau e-ddysgu Plant healthy](#)

⁴⁵ [Modiwl e-ddysgu pasbortau planhigion](#)

⁴⁶ [Llyfrgell Wybodaeth AHDB](#)

Gwyddoniaeth i Ddinasyddion

Mae ein llywodraethau wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid o'r sector cyhoeddus ac elusennol i ddatblygu system rhybuddio'n gynnar am iechyd coed i gefnogi gwaith goruchwyllo swyddogol. Mae Observatree⁴⁷, dan arweiniad Forest Research, yn gydweithrediad rhwng y llywodraeth, Fera Science Ltd, Coed Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae wedi datblygu rhwydwaith ledled y DU o dros 200 o wirfoddolwyr hyfforddedig i arolygu coed ac adrodd am bresenoldeb 22 o blâu a phathogenau blaenoriaeth uchel⁴⁸. Mae gwirfoddolwyr wedi llenwi dros 8,000 o arolygon dros gyfnod o chwe blynedd ac wedi adrodd am achosion tybiedig o 12 o'r 22 organeb â blaenoriaeth, ac mae hynny wedi llywio penderfyniadau gweithredol a pholisi. Yn ganolog i lwyddiant Observatree fu'r cysylltiad adrodd â chronfa ddata ganolog o'r enw TreeAlert sy'n cael ei rhedeg gan Forest Research, ac mae hi'n bwydo i mewn i system goruchwyllo'r llywodraeth.

Canllawiau a phecynnau cymorth

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y diwydiant i ddatblygu gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion. Mae hyn yn cynnwys pecynnau cymorth a chanllawiau i alluogi mynediad at wybodaeth gywir a chyfredol am blâu planhigion, a'r ffordd orau o'u rheoli.

Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion y DU

Mae Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion y DU⁴⁹ yn system sy'n rhoi gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion, gan gynnwys asesiadau risg a wneir gan y llywodraeth a'r data sy'n sail i'r asesiadau hynny. Mae dolenni hefyd at safleoedd eraill o ddiddordeb, gan gynnwys safleoedd anllywodraethol, yn ogystal â gwybodaeth am y rheolaethau a'r gwasanaethau iechyd planhigion a ddarperir gan y llywodraeth.

Bydd y Porth Iechyd Planhigion yn cael ei ailddatblygu dros y tair blynedd nesaf i helpu'r sectorau masnachol a chyhoeddus i ddiogelu bioddiogelwch planhigion drwy sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael mewn ffordd hygyrch ac amserol.

⁴⁷ [Observatree](#)

⁴⁸ [Rhwydwaith Gwyddoniaeth i Ddinasyddion Iechyd Coed y DU](#)

⁴⁹ [Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion y DU - Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion y DU \(defra.gov.uk\)](#)

Pecynnau cymorth a chanllawiau eraill

Mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi ystod eang o ganllawiau ar gyfer gweithredwyr iechyd planhigion, coedwigwyr a thirfeddianwyr ar draws Prydain, gan gynnwys canllawiau ar sut i reoli plâu a chlefydau penodol fel clefyd coed ynn neu wyfyn ymdeithiwr y derw. Yn 2019, cyhoeddwyd y Pecyn Cymorth Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn gan y Cyngor Coed a oedd yn gweithio gyda Fera Science Limited. Roedd y pecyn yn dod â chanllawiau ac astudiaethau achos ynghyd gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr a oedd eisoes yn mynd i'r afael â'r mater. Mae'r pecyn wedi'i weld dros 23,000 o weithiau hyd yma⁵⁰. Mae'r pecyn ar glefyd coed ynn wedi'i lansio yn yr Alban yn ddiweddar ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud hyn ar gyfer awdurdodau yng Nghymru. Mae pecyn tebyg wrthi'n cael ei ddatblygu hefyd ar gyfer Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw.

Cwestiynau 16-20

16. A ydych chi'n cefnogi'r bwriad i annog cymdeithas i chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o helpu i ddiogelu iechyd planhigion?

- Ydw
 - a. Os ydych chi, beth ydych chi neu eich sefydliad yn ystyried yw'r prif fanteision o bosibl? Eglurwch mewn dim mwy na 100 gair
- Nac ydw
 - b. Os nad ydych, beth ydych chi neu eich sefydliad yn ystyried yw'r prif anfanteision o bosibl? Eglurwch mewn dim mwy na 100 gair
- Dydw i ddim yn gwybod

17. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r risgiau i iechyd planhigion ac annog pobl i weithredu'n gyfrifol, yn eich barn chi beth fyddai'r neges fwyaf effeithiol y gellid ei defnyddio mewn ymgyrch hyrwyddo? Rhestrwch yn nhrefn blaenoriaeth, lle 1 fyddai'n cael yr effaith fwyaf a 3 fyddai'n cael yr effaith leiaf.

- Ymgyrchoedd hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o werth planhigion iach
- Ymgyrchoedd hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o'r bygythiadau i iechyd planhigion
- Ymgyrchoedd hyrwyddo i wneud pobl yn ymwybodol o ymddygiad a allai fod yn beryglus

⁵⁰ Ffigur gan y Cyngor Coed (Ebrill 2021)

18. Pryd fyddai negeseuon ar y ffordd orau o ddiogelu iechyd planhigion yn cael yr effaith fwyaf? Dewiswch un opsiwn.

- Pan fydd pobl yn prynu planhigion
- Pan fydd pobl yn gadael ac yn dychwelyd i'r DU ar ôl bod dramor
- Pan fydd pobl yn ymweld â choedlannau a chefn gwlad
- Pan fyddan nhw'n wynebu achos o blâu a chlefydau ar eu tir neu yn eu hardal leol
- Arall – eglurwch mewn dim mwy na 50 gair

19. Pa adnoddau dysgu fyddai'n cael yr effaith fwyaf o ran meithrin eich gwybodaeth chi neu wybodaeth eich sefydliad am fioggiogelwch planhigion? Rhestrwch yn nhrefn blaenoriaeth, lle 1 fyddai'n cael yr effaith fwyaf a 4 fyddai'n cael yr effaith leiaf

- Hyfforddiant anffurfiol, gan gynnwys gweminarau sy'n ymdrin â bioggiogelwch a phatholeg planhigion
- Hyfforddiant ymarferol
- Addysg neu gymhwyster ffurfiol
- Amser wyneb yn wyneb gydag Archwilwyr Iechyd Planhigion.

20. Sut gallwn ni wella cyfraniadau cadarnhaol gwyddoniaeth i ddinasyddion ar iechyd planhigion? Rhestrwch yn nhrefn blaenoriaeth, lle 1 fyddai'r opsiwn a ffefrir a 4 fyddai'r opsiwn lleiaf ffafriol.

- Annog mwy o sefydliadau i gymryd rhan mewn prosiectau fel Observatree
- Hwyluso cyfranogiad ehangach gan y cyhoedd
- Gwellu hygyrchedd at y data o brosiectau gwyddoniaeth i ddinasyddion
- Defnyddio'r data i gefnogi camau ar lawr gwlad

Canlyniad 3: Cadwyn gyflenwi planhigion bioddiogel

Y Llywodraeth a diwydiant yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi cadwyn gyflenwi planhigion bioddiogel

Gweithio mewn partneriaeth

Ni all y llywodraeth sicrhau bioddiogelwch effeithiol ar ei phen ei hun. Mae ein gwaith yn cael ei gefnogi gan drefniadau ymgysylltu helaeth â grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- Fforwm Ymgynghorol Iechyd Planhigion y DU, sy'n sicrhau bod rhanddeiliaid yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o lunio polisiau'r llywodraeth sy'n sail i'n dull o ymdrin â bioddiogelwch a darparu mesurau i'w cefnogi.
- Grwpiau a arweinir gan y sector fel Cynghrair Iechyd Planhigion y DU. Mae'r Gynghrair yn grŵp traws-sector gydag aelod sefydliadau o feysydd garddwriaeth addurnol, coedyddiaeth, coedwigaeth a rheoli tir cyffredinol yn ogystal â chymdeithasau masnach, cyrff anllywodraethol amgylcheddol a'r llywodraeth. Ei nod yw cryfhau arferion bioddiogelwch ar draws diwydiant a thu hwnt.
- Grwpiau rhanddeiliaid polisi a phenodol i blâu er mwyn helpu i gydweithio ar faterion iechyd planhigion critigol, fel clefyd coed ynn a gwyfyn ymdeithiwr y derw.

Rhannu costau a chyfrifoldebau

Mae'n bolisi gan Lywodraeth y DU i godi tâl am lawer o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n gyhoeddus. Y dull safonol yw pennu ffioedd i adennill costau llawn darparu'r gwasanaeth. Mae hyn yn rhyddhau'r trethdalwr o gostau, fel eu bod yn cael eu hysgwyddo'n briodol gan y defnyddwyr sy'n elwa ar y gwasanaeth. Mae'n caniatáu i adnoddau cyhoeddus gael eu dosbarthu'n fwy teg ac yn golygu llai o wariant a benthyca cyhoeddus. Mae'r plâu a'r clefydau mwyaf difrifol sy'n cyrraedd ac yn lledaenu yn y wlad hon yn gwneud hynny drwy fasnach mewn planhigion a chynnyrch planhigion. Mae codi tâl am wasanaethau iechyd planhigion yn gyson â'r egwyddor mai'r busnesau sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn ddylai ysgwyddo costau unrhyw fesurau i atal niwed a allai gael ei achosi fel arall gan eu gweithredoedd neu eu diffyg gweithredu. Adolygir y ffioedd yn rheolaidd i sicrhau nad oes adennill yn digwydd sydd o dan neu dros y costau, ac maent yn cael eu diwygio yn ôl yr angen.

Mae rhannu costau a chyfrifoldebau yn ddull effeithiol yn ôl pob golwg – mae'n annog mewnforywr i ddod o hyd i stoc bioddiogel. Mewn ymateb i nifer fawr o ataliadau, rydym wedi gweld gwelliannau yn ansawdd y mewnforyn. Er enghraifft, mae'r prif wledydd

allforio wedi datblygu systemau trin i gael gwared ar blâu cyn eu hallforio i'r DU yn sgil y lefelau uchel o ataliadau.

Mentrau'r gadwyn gyflenwi

Mae bioddiogelwch da yn gofyn mwy na dim ond rheoliadau da. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bawb weithredu'n gyfrifol, gan gynnwys gwella safonau bioddiogelwch a dod o hyd i stoc plannu gan gyflenwyr dibynadwy. Mae sawl cynllun gwarantu ar draws Prydain sydd â'r nod o godi safonau bioddiogelwch neu ardystio tarddiad:

- Mae'r Safon Rheoli Iechyd Planhigion⁵¹ a'i Chynllun Ardystio Planhigion Iach cysylltiedig yn nodi 23 o ofynion bioddiogelwch ar wahân ac fe'i lanswyd i'r fasnach meithrin yn 2020 gan Gynghrair Iechyd Planhigion y DU. Mae wedi'i chynllunio i liniaru a diogelu busnesau rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â phlâu planhigion difrifol, ac i wella systemau rheoli bioddiogelwch ac iechyd planhigion y cadwyni cyflenwi garddwriaeth, amwynder a choedwigaeth.
- Mae'r Cynllun Gwarantu Garddwriaeth Addurnol yn gynllun achredu arbenigol ar gyfer tyfwyr sy'n eiddo i'r Gymdeithas Crefftwyr Garddwriaethol. Ei nod yw codi safonau proffesiynol ym maes garddwriaeth addurnol yn y DU.
- Mae cynllun gwarantu Coed Cadw, sef 'UK & Ireland Sourced & Grown', yn fenter wirfoddol ar gyfer meithrinfeydd coedwig. Mae'n ardystio tarddiad stoc i brynwyr ac yn sicrhau bod coed wedi'u tyfu o had sydd wedi tarddu a thyfu yn y DU ac lwerddon yn unig gydol eu hoes.
- Sefydlwyd Cynllun Ardystio Safe Haven⁵² gan ddiwydiant tatws hadyd Prydain a chafodd ei gynnal gan AHDB i ddarparu gwarchodaeth ychwanegol i dyfwyr a'u cwsmeriaid rhag amrywiaeth o blâu a chlefydau. Mae'r cynllun yn cynnwys protocolau gwyddonol gadarn sy'n sicrhau'r arferion gorau ar gyfer tyfu a thrin hadau, ac mae'n mynnu bod busnesau sy'n aelodau o'r cynllun yn cael eu harchwilio bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Cefnogi cynhyrchiant domestig

Mae'r DU yn mewnforio mwy o blanhigion nag y mae'n ei allforio. Yn 2019, mewnforiodd y DU gwerth tua £1.2 biliwn o nwyddau garddwriaethol addurnol⁵³; y tri phrif beth oedd yn cael eu mewnforio oedd rhosod, planhigion tŷ a blodau Mihangel er bod amodau tyfu

⁵¹ [Safon Rheoli Iechyd Planhigion](#)

⁵² [Cynllun ardystio safe haven](#)

⁵³ [Gwerth nwyddau garddwriaethol addurnol](#)

tebyg yma i wledydd fel yr Iseldiroedd a fyddai'n caniatáu i amrywiaeth eang o blanhigion, cynnyrch planhigion a deunyddiau plannu gael eu tyfu yma.

Mae'r cynnydd yn yr hyn a gynhrychir yn ddomestig yn gwneud cyfraniad pwysig at wella bioddiogelwch, ac mae hefyd yn arwain at fanteision sylweddol i economïau lleol, gwarchodaeth yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Croesewir mentrau sy'n arwain at gynnydd yn yr hyn a gynhrychir yn ddomestig yn ogystal â chynnydd yn nifer y coed a phlanhigion sy'n cael eu tyfu yn y wlad hon. Er enghraifft:

- Mae Defra wedi bod yn gweithio gyda'r sector ar Strategaeth Twf ar gyfer y sector addurnol sy'n cael ei harwain gan ddiwydiant, ac sy'n benodol i Lloegr, â'r nod o geisio canfod lle mae potensial am dwf o fewn y diwydiant, a lle gallai cymorth gan y llywodraeth gyflymu'r twf hwnnw.
- Drwy'r Gronfa Natur dros yr Hinsawdd (NCR) bydd Defra hefyd yn darparu hyd at £10.5 miliwn yn 2021-22 i gefnogi'r sector er mwyn cynyddu'r deunyddiau plannu coed amrywiol o ansawdd uchel a gynhrychir yn y DU, ac i wella bioddiogelwch. Bydd cyfres o grantiau cyfalaf a grantiau arloesi ym maes ymchwil a datblygu ar gael i wella capasiti a chefnogi'r gwaith o foderneiddio meithrinfeydd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Byddwn yn buddsoddi mewn cynhyrchu, prosesu a storio hadau coed er mwyn gwella ansawdd, nifer ac amrywiaeth yr hadau sydd ar gael, a sicrhau cadernid y gadwyn gyflenwi. Drwy ddatblygu Cynllun Hysbysu Meithrinfeydd byddwn yn rhoi gwybodaeth i feithrinfeydd ynghylch y galw am goed yn y dyfodol er mwyn iddynt allu cwrdd â'r galw hwnnw.
- Yn yr Alban, mae Scottish Forestry yn darparu cyllid ar gyfer meithrinfeydd coed, busnesau coedwigaeth bach a ffermwyr i'w helpu i gyfrannu at greu mwy o goedlannau. Hefyd, mae Llywodraeth yr Alban yn cefnogi ymchwil genetig arloesol i gynorthwyo'r diwydiant i dyfu cynydau tatws, grawnfwydydd a ffrwythau meddal mwy gwydn, fel rhan o raglen ymchwil strategol gwerth £48m y flwyddyn ar gyfer yr amgylchedd, adnoddau naturiol ac amaethyddiaeth.
- Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant coed ac yn cefnogi Grown in Britain i gynyddu faint o goed a dyfir gartref sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr ym maes adeiladu, gan greu belt cludo o garbon wedi'i gloi yn ein cartrefi a'n hadeiladau. Mae 100% o'r coed a blannwyd gan Forestry England mewn coedwigoedd wedi'u tyfu yn y DU, a dyna fu dros y 3 blynedd diwethaf.

Yn yr un modd, er mwyn cefnogi dulliau cynhyrchu amaethyddol domestig, mae'r llywodraeth yn cefnogi nifer o gynlluniau ardystio hadau i'r prif safonau ansawdd. Mae cynlluniau ar wahân ond tebyg ar waith yng Nghymru, Lloegr⁵⁴ a'r Alban⁵⁵.

⁵⁴ [Ardystio hadau yng Nghymru a Lloegr](#)

⁵⁵ [Cynllun dosbarthu tatws hadyd](#)

Cefnogi creu coedlannau

Mae tyfu a gwarchod coedwigoedd a choed y DU yn rhan annatod o'n hadferiad gwyrdd a'n brwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Mae ein llywodraethau wedi ymrwymo i ehangu coedlannau er mwyn helpu â'r her newid yn yr hinsawdd.

Mae rheoli plâu a chlefydau coed yn effeithiol ac yn effeithlon, ynghyd â mesurau tymor hwy i feithrin cydnerthedd, yn hanfodol er mwyn cynnal ac ehangu'r coedwigoedd a'r coedlannau, cynnal eu gallu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, gwerthoedd economaidd, a gwasanaethau cymdeithasol ac ecosystemau cysylltiedig. Hefyd, gall creu coedwigoedd a choedlannau newydd ein helpu i addasu i newid yn yr hinsawdd drwy ddarparu rheolaeth llifogydd naturiol a lloches i dda byw.

O ystyried y newid yn yr hinsawdd a'r globaleiddio cynyddol o ran masnach a theithio, rhagwelir hefyd y bydd y bygythiad i goed gan blâu a chlefydau yn tyfu. Felly, mae'n hanfodol sicrhau y daw coed ifanc gan gyflenwyr dibynadwy sy'n ymgorffori arferion bioddiogelwch cadarn ym mhob cam o'r broses gynhyrchu. Dylai perchnogion coedwigoedd ystyried pa mor briodol yw'r rhywogaethau a tharddiad y coed a ddefnyddir, a sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amodau cyfredol y safle.

Mae ein llywodraethau'n cefnogi creu coedlannau, ac fe ddylai'r rhai sy'n bwriadu plannu coedlannau chwilio am gyngor ar wefannau eu gwledydd eu hunain. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, grant iechyd coed coedlannau Defra⁵⁶, Cynllun Grantiau Coedwigaeth Llywodraeth yr Alban⁵⁷ a rhaglen Glastir - Adfer Coetir gan Lywodraeth Cymru⁵⁸.

Cwestiynau 21-26

21. Ydych chi'n perthyn yn barod i gynllun gwarantu sy'n mynnu safonau gan y rheini sy'n dymuno ymuno? Os ydych, pa un/rhai? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- Cynllun Ardystio Plannu Iach
- Cynllun Gwarantu Garddwriaeth Addurnol (OHAS)
- Cynllun 'UK & Ireland Sourced & Grown' (UKISG)
- Dim un o'r uchod
- Arall, manylwch mewn dim mwy na 25 gair

⁵⁶ [Grant iechyd coed mewn coedlannau](#)

⁵⁷ [Cynllun grantiau coedwigaeth](#)

⁵⁸ [Glastir - Adfer Coetir](#)

22. Os ydych chi wedi ateb 'Ydw' i C21, pa fanteision welodd eich busnes neu sefydliad o fod yn aelod o'r cynllun? Eglurwch mewn dim mwy na 50 gair.

23. Os ydych chi'n gyflenwr, pa fanteision y mae angen i gynlluniau gwarantu eu cynnig i chi/eich busnes er mwyn i chi ymuno neu gynnal eich aelodaeth? Dewiswch y rhain yn nhrefn eu pwysigrwydd, lle 1 yw'r budd pwysicaf, a 5 yw'r budd lleiaf pwysig.

- Mynediad i'r farchnad e.e. gallu bodloni gofynion bioddiogelwch cwsmeriaid sy'n mynnu stoc gan fusnesau achrededig
- Enw gwell i'r brand
- Mynediad at fuddion arbennig i aelodau e.e. yswiriant, meddalwedd cadw cofnodion, meddalwedd rheoli stoc, hyfforddiant
- Gallu dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol
- Gallu i godi premiwm

24. Beth yw'r rhwystrau rhag twf cynhyrchu domestig? Dewiswch yr opsiynau canlynol yn nhrefn eu pwysigrwydd, lle 1 yw'r rhwystr pwysicaf, a 9 yw'r rhwystr lleiaf pwysig?

- Problemau mynediad i'r farchnad ar gyfer cynnyrch domestig e.e. canfod marchnadoedd newydd, diffyg ymwybyddiaeth defnyddwyr a'r galw am gynnyrch domestig, problemau logistaidd
- Diffyg gwybodaeth i gyflenwyr allu rhagweld galw yn y dyfodol e.e. diffyg contractau cyflenwi tymor hir oherwydd ansicrwydd ynghylch cynlluniau grant a phrosiectau seilwaith
- Denu newydd-ddyfodiaid i'r sector.
- Barn defnyddwyr e.e. pris, ystod, ansawdd
- Argaeledd arloesi a thechnoleg
- Cyllid ac adnoddau ar gael i roi technoleg ac arloesi newydd ar waith e.e. ariannu arloesi neu ariannu amrywiaeth newydd o gynnyrch
- Anhawster dod o hyd i lafur parhaol a thymhorol
- Gorbenion cynhyrchu
- Cystadleuaeth gan gyflenwyr tramor

25. O'r opsiynau isod, pa rai fyddai fwyaf effeithiol o ran mynd i'r afael â'r prif rwystrau rhag cynhyrchu domestig rydych chi wedi'u nodi. Dewiswch yr opsiynau canlynol yn nhrefn eu heffeithiolrwydd, lle 1 yw'r mwyaf effeithiol, a 8 yw'r lleiaf effeithiol?

- Gweithgareddau hyrwyddo i gynyddu'r galw am gynnyrch sy'n cael ei gynhyrchu'n ddomestig

- Sefydlu modelau cydweithredol e.e. cyrff cynhyrchwyr
- Ymchwil a datblygu sy'n canolbwyntio ar gynyddu cynhyrchu domestig
- Defnyddio dulliau arloesi a thechnoleg
- Canfod cyfleoedd ar gyfer twf mewn marchnadoedd allforio
- Sicrhau argaeledd llafur digonol
- Defnyddio mwy o ddulliau awtomeiddio er mwyn lleihau dibyniaeth ar ofynion llafur
- Systemau rhaghysbysu i helpu cyflenwyr a thyfwyr i ragweld y galw

26. A oes unrhyw gyfleoedd eraill i gynyddu'r hyn a gynhyrchir yn ddomestig ar wahân i'r rhai a nodwyd yn C25? Eglurwch mewn dim mwy na 100 gair.

Canlyniad 4: Gallu technegol gwell

Meithrin galluogrwydd ar sail iechyd planhigion a defnyddio gwyddoniaeth a thechnoleg arloesol a datblygol i ddal i fyny â bygythiadau sy'n newid a sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y dyfodol.

Darparwyr ymchwil

Mae datblygu ein gallu a'n capasiti ymchwil a gwyddoniaeth yn hanfodol i sicrhau ein bod yn parhau i wella ein trefn iechyd planhigion. Mae llywodraethau'n buddsoddi mewn ystod eang o sefydliadau a mudiadau ymchwil annibynnol, academiaidd a sector cyhoeddus i gynhyrchu tystiolaeth sy'n sail i bolisiâu iechyd planhigion ym Mhrydain. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- **Asiantaethau ac adrannau'r Llywodraeth** fel APHA, SASA (a oedd yn arfer cael ei alw'n Science & Advice for Scottish Agriculture) a Forest Research.
- **Cyrff cyhoeddus anadrannol gweithredol**, er enghraifft: Gerddi Botaneg Brenhinol Caeredin a Gerddi Botaneg Brenhinol Kew, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth adrannau noddi.
- **Sefydliadau Ymchwil** fel Fera Science Ltd, Sefydliad James Hutton, Canolfan John Innes, Rothamsted Research, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yng Nghymru, Prifysgol Bangor, a Choleg Gwledig yr Alban.
- Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn darparu cyllid ymchwil blynyddol i'w **Canolfan Arbenigedd Iechyd Planhigion rithiol**⁵⁹ ac yn ddiweddar mae wedi cymeradwyo adeiladu cyfres o labordai iechyd planhigion newydd yn RBGE.

Mae diwydiant a'r sector elusennol e.e. Sefydliad Elusennol Gatsby, Wellcome Trust, y Gymdeithas Arddwriaeth Frenhinol a Coed Cadw hefyd yn buddsoddi adnoddau sylweddol mewn iechyd planhigion ac yn aml yn cydariannu prosiectau gyda'r llywodraeth. Er enghraifft, mewn cydweithrediad â Rhanbarth Dinasoedd Tay, mae'r Alban yn buddsoddi mewn canolfan haidd ryngwladol a chyfleuster ffermio fertigol.

Mae byrddau ardollau amaethyddiaeth a garddwriaeth wedi cyfrannu at ddefnyddio ymchwil gymhwysol a dulliau trosglwyddo gwybodaeth o fewn y diwydiant, tra bo'r sector technoleg amaeth yn buddsoddi mewn ymchwil marchnad agos a datblygu cynnyrch.

⁵⁹ [Canolfan arbenigedd iechyd planhigion](#)

Cydweithio ar draws Prydain

Wedi'i lansio yn 2016, mae Partneriaeth Gwyddoniaeth y DU ar gyfer Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn dod â holl gyllidwyr ymchwil perthnasol y llywodraeth at ei gilydd, yn ogystal â chadeirydd annibynnol a chynrychiolwyr. Mae'r Partneriaeth yn cyfarfod bob dau fis ac yn darparu fforwm ar gyfer cydlynu a chydweithio ar lefel uchel ym maes gwyddor iechyd anifeiliaid a phlanhigion er mwyn blaenoriaethu buddsoddiad mewn ymchwil, cysoni agendâu strategol a rhaglenni ymchwil.

Mae rhai o'r achosion o gydweithio diweddar ar ymchwil iechyd planhigion y DU yn cynnwys:

- **Rhaglen Clefydau Planhigion Bacterol BBSRC** a ariennir drwy Gronfa Blaenoriaethau Strategol Ymchwil ac Arloesi yn y DU, ar y cyd â NERC, Defra a Llywodraeth yr Alban. Roedd Cam 1 yn rhaglen gydweithredol gwerth £5m ar Xylella, o'r enw BRIGIT, dan arweiniad Canolfan John Innes; mae cam 2 yn darparu £13m ar gyfer 8 prosiect iechyd planhigion.
- Bydd **Rhaglen 'Treescapes' Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC)** yn dechrau yn 2021 ac yn darparu £14.5m ar gyfer prosiectau er mwyn cyfrannu at benderfyniadau ynghylch ehangu coedweddau yn y dyfodol. Caiff ei hariannu ar y cyd gan Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.
- Mae **Action Oak** yn fenter newydd i warchod ein coed derw, ac mae'n dod â dros 30 o sefydliadau gwahanol at ei gilydd, gan gynnwys llywodraethau, cyrff anllywodraethol, ac asiantaethau ymchwil. Mae'r bartneriaeth yn ariannu ymchwil i wella dealltwriaeth o'r bygythiadau i'n coed derw ac yn llywio arferion rheoli gorau yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol gyda pherchnogion a rheolwyr i warchod y rhywogaeth. Ar hyn o bryd mae'r bartneriaeth yn goruchwyllo 11 PhD newydd ar bynciau sy'n ymwneud ag iechyd coed derw.
- Yn 2020, cyhoeddwyd y **Strategaeth Gwyddoniaeth ac Arloesi ar gyfer Coedwigaeth ym Mhrydain**⁶⁰ i gydnabod y rôl allweddol sydd gan y sector hwn o ran gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd a chefnogi adferiad gwyrdd. Mae'r strategaeth yn nodi canlyniadau lefel uchel, themâu a meysydd o ddiddordeb ymchwil, gan gynnwys thema ar iechyd coed a bioddiogelwch planhigion. Grŵp Cyfeirio'r Strategaeth Ymchwil trawsffiniol sy'n goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r strategaeth.

⁶⁰ [Strategaeth Gwyddoniaeth ac Arloesi ar gyfer Coedwigaeth ym Mhrydain](#)

Ar lefel Prydain byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd strategol sy'n croesawu cydgyllido, cyd-ddylunio galwadau i gyllido ymchwil rhyngddisgyblaethol ac ymgysylltu'n agos drwy gydol oes y prosiectau llwyddiannus i gyflawni canlyniadau polisi iechyd planhigion perthnasol.

Cydweithredu rhyngwladol

Mae ein hymchwilyr yn meithrin ac yn cynnal cysylltiadau gwyddonol rhyngwladol er budd pawb. Mae cydweithio byd-eang yn arwain at wella ein gallu ein hunain ac yn sicrhau bod ymchwil a gwybodaeth am iechyd planhigion yn cael eu rhannu'n gyflym ac yn amlochrog. Er enghraifft, ar gyfer plâu risg uchel sy'n peri bygythiad ond nad ydynt yn bresennol ym Mhrydain, mae ymchwilyr yn elwa ar gael gweithio gyda chydweithwyr mewn gwledydd lle mae'r plâu wedi ymsefydlu'n barod; maen nhw wedyn yn dysgu gwersi sy'n cryfhau ein bioddiogelwch a'n hymateb mewn argyfwng. Yn ogystal â chydweithio â gwledydd yn unigol, rydym hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o rwydweithiau ffurfiol, gan gynnwys:

- **EUPHRESKO** - er mai rhwydwaith Ewropeaidd oedd hwn yn wreiddiol, mae'r aelodaeth bellach yn rhyngwladol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o 50 gwlad gan gynnwys Seland Newydd, Awstralia, UDA a Canada ac maen nhw'n cydariannu ac yn cydweithio ar ymchwil iechyd planhigion. Mae Defra, y Comisiwn Coedwigaeth a SASA yn cyllido cyfraniad at sawl prosiect Euphresco bob blwyddyn.
- **Rhwydwaith Sentinel Planhigion Rhyngwladol** – rhwydwaith byd-eang o erddi botanegol a gerddi coed sy'n darparu data a gwybodaeth am blâu a phathogenau penodol. Mae'r prosiect wrthi'n cael ei sefydlu i fonitro symudiad y tyllbryf onn emrallt, sef pla blaenoriaeth uchel, tua'r gorllewin o'i leoliadau yn Rwsia a'r Wcráin. Caiff y prosiect hwn ei arwain gan Botanic Gardens Conservation International (BGCI) gyda chymorth technegol gan Fera Science Ltd.
- **Rhwydwaith Safleoedd Sentinel Iechyd Planhigion Cymru**⁶¹ – yn 2020, mewn cydweithrediad ag APHA a Chyfoeth Naturiol Cymru, lansiodd Llywodraeth Cymru brosiect safleoedd sentinel. Fel rhan o'r rhaglen, bydd sefydliadau partner yn sefydlu trapiau ar gyfer amrywiaeth o blâu a phathogenau ledled Cymru. Mae safleoedd yn cael eu datblygu ar gyfer arferion gorau ym maes iechyd planhigion a chodi ymwybyddiaeth.

⁶¹ [Rhwydwaith safleoedd sentinel iechyd planhigion Cymru](#)

Bydd y Deyrnas Unedig yn parhau i weithio ar y cyd â phartneriaid ymchwil yn Ewrop, fel Horizon Ewrop, a Copernicus - Rhaglen Arsylywi'r Ddaear.

Blaenoriaethau ymchwil yn y dyfodol

Mae tystiolaeth gadarn o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau a safbwyntiau yn sail i'r dull seiliedig ar risg o ymdrin ag iechyd planhigion, a'r holl weithgareddau a amlinellwyd hyd yma o dan Ganlyniadau 1-3. Mae buddsoddiad mewn ymchwil yn cael ei gydbwysu rhwng rhaglenni ymchwil strategol tymor hir ac ymchwil mwy cymhwysol ac ymatebol i ddiwallu anghenion penodol. Wrth symud ymlaen, bydd gwyddoniaeth ac ymchwil yn parhau i fod wrth wraidd y strategaeth, er mwyn helpu i ddod o hyd i atebion ar sail tystiolaeth ac sydd wedi'u targedu a fydd yn ychwanegu gwerth ac yn lleihau costau. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy'r ymgynghoriad hwn, i ddiffinio blaenoriaethau ymchwil penodol. Gall y meysydd o ddiddordeb gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig) i'r canlynol:

- **Asesu risg a sganio'r gorwel** – gan gynnwys deall bioleg plâu a phathogenau, ffactorau risg a llwybrau, modelu hinsoddol a bregusrwydd rhywogaethau.
- **Arolygiadau, diagnosteg a goruchwyliaeth** – modelu dosbarthiad a lledaeniad plâu a phathogenau, dulliau newydd o oruchwyllo fel synhwyro o bell, archwilio offer canfod a diagnostig newydd a gwneud y gorau o wyddoniaeth i ddinasyddion. Nodi dulliau cyson o ddeall ein llinell sylfaen a rhoi gwybod am newidiadau a digwyddiadau.
- **Rheoli plâu a chlefydau** – gan gynnwys rheoli plâu yn integredig, atebion sy'n seiliedig ar natur fel rheolaeth fiolegol, canllawiau a pheccynnau cymorth ar gyfer tiffeddianwyr ac offer rheoli data.
- **Ymwrthedd a Goddefiant** – bydd deall amrywiad genetig a'r sail enetig dros oddefiant planhigion i blâu a chlefydau yn ein galluogi i gyflymu'r broses o fridio ar gyfer bygythiadau nawr ac yn y dyfodol, a phlannu poblogaethau mwy gwydn.
- **Plannu a rheoli ar gyfer gwydnwch** – gan gynnwys dulliau i sbarduno newid tymor hir i gryfhau ein planhigion a'n tirweddau er mwyn bod yn fwy gwydn yn wyneb bygythiadau yn y dyfodol.
- **Ymddygiad bioddiogelwch** – deall yr hyn sy'n cymhell ac yn cyfyngu ar unigolion a grwpiau i sicrhau canlyniadau bioddiogelwch, gan oresgyn y bwlch rhwng gwybodaeth a gweithredu a meintoli gwerthoedd cymdeithasol a diwylliannol coed a choedwigoedd.
- **Gwerthuso** – datblygu fframweithiau gwerthuso, dangosyddion a metrigau i'n helpu i fesur llwyddiant ein polisiau iechyd planhigion.

Mabwysiadu technolegau datblygol mewn bioddiogelwch

Bydd rhoi arloesedd wrth galon ein dull gweithredu a buddsoddi mewn cynnyrch a thechnolegau o'r radd flaenaf nid yn unig yn helpu i ddiogelu iechyd planhigion, ond hefyd yn sbarduno twf gwyddonol ac yn creu swyddi crefftus i'n sector. Gan weithio gyda'n partneriaid, mae gennym raglen dreigl o ddatblygu, profi a defnyddio technolegau newydd, gan gynnwys yr elfennau a restrir isod. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy'r ymgynghoriad hwn, i ddeall y ffordd orau o gefnogi'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu technolegau datblygol mewn bioddiogelwch

- **Technolegau Genomig a Ffylogenetig** – mae datblygiadau modern mewn genomeg cyflym (e.e. profion LAMP a dyfeisiau genomeg fflongl), yn ogystal â gwelliannau mewn dilyniant genom cyfan wedi newid y ffordd rydym yn darparu profion a goruchwyliaeth reolaidd dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae enghreifftiau'n cynnwys codau bar ar fasnach risg uchel er mwyn helpu i adnabod plâu sy'n anodd eu canfod gyda'r llygad, samplo sborau o'r awyr neu ddadansoddiad isotopau i gadarnhau tarddiad datganedig cynnyrch pren. Mae dulliau meta-bargodio yn ein galluogi i adnabod risgiau posibl yn yr amgylchedd ehangach, gan gynnwys rhywogaethau feirysol a bacteriol sy'n anodd eu gweld gyda'r llygad yn unig. Mae technolegau genynnau hefyd yn ein galluogi i ddeall amrywiad genynnol yn well mewn poblogaethau planhigion a sut gallai hyn addasu i amgylcheddau lleol a bygythiadau biotig. Rydym hefyd yn edrych ar y defnydd o signalau ffylogenetig i weld a allai ganfod rhywogaethau a allai ddod yn fygythiadau yn y DU, er nad ydynt yn fygythiadau yn eu lleoliadau brodorol ar hyn o bryd.
- **Atebion sy'n seiliedig ar natur** – gall defnyddio cemegau a rheolaethau safonol eraill fod yn gostus, bod angen eu defnyddio dro ar ôl tro a chael effeithiau eilaidd digroeso. Mae atebion sy'n seiliedig ar natur, sy'n amrywio o reolaeth fiolegol glasurol i reoli plâu yn integredig, yn annog defnyddio pob dull diogelu planhigion, o gylchdroi cnydau i elynion naturiol a defnyddio amrywiadau gwydn a phlaladdwyr wedi'u targedu. Gall ein helpu i ddod o hyd i ffyrdd mwy cynaliadwy, risg is a mwy cost-effeithiol o reoli plâu a phathogenau.
- Mae technolegau **Arsylwi ar y Ddaear a synhwyro o bell**, e.e. delweddau lloeren, casglu data drôn a data Lidar, hefyd yn dod yn fwy cyffredin yn ein trefn bioddiogelwch. Mae datblygiadau'n caniatáu cipio data cydraniad uchel, sy'n aml ar gael mewn amser real, i gwmpasu amrywiaeth o bamedrau iechyd planhigion gan gynnwys iechyd canopi, iechyd dail, cyfraddau twf a ffurf, cynhyrchiant hadau. Gellid cysylltu'r gwahaniaethau strwythurol a sbectrol hyn rhwng planhigion â dangosyddion genetig neu ffenoteipaidd o glefydau goddefiant. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau i brofi mapiau rhywogaethau coed sy'n deillio o loeren ar raddfeydd mawr ac yn rhyddhau'r data hwn i eraill.

- **Dysgu Peirianyddol** – gellir defnyddio modelau mathemategol i reoli epidemigau o glefydau planhigion yn y ffordd orau bosibl. Fodd bynnag, mae'r dull confensiynol ond yn caniatáu cymharu nifer cymharol fach o strategaethau ymyrryd a bennwyd ymlaen llaw o ran eu heffaith ar amcan. Mae dysgu peirianyddol, yn enwedig atgyfnerthu'r dysgu, yn ddull amgen o ddatrys y math hwn o broblem ac rydym yn edrych ar sut y gall gyfrannu at ddylunio'r strategaethau gorau ar gyfer rheoli plâu ac afiechydon planhigion.
- **Casglu data a'r gallu i ryngweithredu** – mae problemau iechyd planhigion yn digwydd ar draws ffiniau ac mae angen ymatebion aml-asiantaeth yn aml. Rydym yn cyflwyno offer casglu data symudol i'n harolygwyr ledled Prydain Fawr i sicrhau bod modd casglu data mewn amser real a'i storio mewn fformatau safonol mewn cronfeydd data rhyngweithredol. Bydd gwneud hynny'n darparu gwybodaeth amser-real os bydd achosion, a hefyd yn darparu gwaelodlin hanesyddol o ganlyniadau iechyd planhigion i ddehongli newidiadau i ddsbarthiad neu nifer y plâu a chlefydau, gan lywio polisiau yn y dyfodol a rhannu data y tu hwnt i'r llywodraeth.
- **Modelu** – rydym yn ariannu amrywiaeth eang o weithgareddau modelu, o fodelu hinsoddol ar oroesiad a chylch bywyd tebygol plâu yn hinsawdd y DU, i fodelu microhinsoddau mewn pridd neu ganopiâu coed ac offer cefnogi penderfyniadau i lywio ein gweithgarwch ymateb brys a pholisi yn y dyfodol ar blâu ac afiechydon penodol e.e. *Phytophthora ramorum* a chlefyd gwrysg du'r tatws (*Pectonum atrosepticum*).

Cwestiynau 27-33

27. Ydych chi'n meddwl ei bod yn well canolbwyntio cymorth y llywodraeth i waith ymchwil a datblygu ar brosiectau ymchwil a datblygu tymor byr, adweithiol i fynd i'r afael â bygythiad penodol, buddsoddiad strategol tymor hir, neu gyfuniad o'r rhain? Nodwch i ba raddau y dylai'r llywodraeth ganolbwyntio buddsoddiad ar yr ymchwil hirdymor strategol isod ar raddfa o 0-100. Byddwn yn tybio eich bod yn credu y dylid canolbwyntio'r gyfran sy'n weddill ar brosiectau Ymchwil a Datblygu adweithiol, tymor byr.

Math o fuddsoddiad	0%	10%	20%	30%	40%	50%	60%	70%	80%	90%	100%
Fcanolbwyntio ar ymchwil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

strategol tymor hir											
--------------------------------	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

28. Er mwyn aros ar flaen y gad o ran bioddiogelwch, pa feysydd y dylai Prydain ganolbwyntio eu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu arnynt dros y pum mlynedd nesaf? Rhestrwch yr opsiynau canlynol yn nhrefn eu pwysigrwydd, lle mai 1 yw'r pwysicaf, a 6 yw'r rhwystr lleiaf pwysig.

- Asesu risg a sganio'r gorwel
- Archwiliadau, diagnosteg a gwyliadwriaeth.
- Rheoli plâu a chlefydau.
- Ymwrthedd a goddefiant.
- Plannu a rheoli i sicrhau cydnerthedd.
- Cyfrifoldebau a gweithredoedd rhanddeiliaid.

29. Awgrymwch hyd at 2 gwestiwn ymchwil blaenoriaeth ar gyfer y pynciau ymchwil a restrir isod

- Asesu risg a sganio'r gorwel (2 gwestiwn; dim mwy na 50 gair)
- Archwiliadau, diagnosteg a gwyliadwriaeth. (2 gwestiwn; dim mwy na 50 gair)
- Rheoli plâu a chlefydau. (2 gwestiwn; dim mwy na 50 gair)
- Ymwrthedd a goddefiant. (2 gwestiwn; dim mwy na 50 gair)
- Plannu a rheoli i sicrhau cydnerthedd. (2 gwestiwn; dim mwy na 50 gair)
- Cyfrifoldebau a gweithredoedd rhanddeiliaid. (2 gwestiwn; dim mwy na 50 gair)

30. A fyddai modd i ni ddysgu oddi wrth weithgareddau ym maes gwyddoniaeth, technoleg neu arloesi mewn sectorau eraill (e.e. gofal iechyd) Eglurwch mewn dim mwy na 100 gair.

31. Sut gall llywodraethau Prydain gefnogi'r gwaith o ddatblygu, profi a chyflwyno datblygiadau ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg yn well er mwyn gwella bioddiogelwch? Eglurwch mewn dim mwy na 100 gair.

32. Beth yw'r rhwystrau mwyaf rhag mabwysiadu technolegau newydd i gefnogi bioddiogelwch planhigion? Eglurwch mewn dim mwy na 100 gair.

33. Gyda phwy y dylem ni weithio i ehangu'r gallu sydd ar gael i gefnogi ymchwil bioddiogelwch? Eglurwch mewn dim mwy na 50 gair.

Atodiad A – Ymgynghoriad ar fesurau bioddiogelwch ychwanegol ar gyfer coed risg uchel

Pwrpas

Lansiwyd yr ymgynghoriad hwn fel atodiad i ymgynghoriad y Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion i'n helpu ni i gael dealltwriaeth ddyfnach o safbwyntiau rhanddeiliaid ar fesurau bioddiogelwch ychwanegol sy'n gysylltiedig â risgiau penodol oddi wrth goed. Nid oes rhaid i chi lenwi'r atodiad hwn fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion. Fodd bynnag, rydym yn gwahodd ymatebion gan unrhyw rhanddeiliad sydd â diddordeb penodol mewn coed neu ddealltwriaeth o iechyd coed.

Bydd eich ymateb yn helpu i lywio'r syniadau polisi ynghylch mesurau bioddiogelwch cyn y ffin, ar y ffin a mewnlol ar gyfer coed risg uchel. Byddwn yn gofyn i ymatebwyr am eu barn ynghylch yr ystod o fesurau bioddiogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd a p'un a oes modd cyflwyno mesurau yn y dyfodol i gryfhau ein trefn bioddiogelwch

Deilliodd yr ymgynghoriad hwn ar fesurau bioddiogelwch ychwanegol o ymrwymiad yn Strategaeth Cadernid Iechyd Coed Lloegr (2018)⁶² i ymgynghori ar gwarantyn ar ôl mynediad. Ar ôl ymgynghori'n anffurfiol â rhanddeiliaid, ehangwyd cwmpas y ffocws hwn. Mae cwarantyn ar ôl mynediad yn un o'r ystod o fesurau bioddiogelwch rydym yn ymgynghori yn eu cylch. Diben hyn yw galluogi ymatebwyr i roi sylwadau ar effeithiolrwydd a dichonoldeb mesurau bioddiogelwch (fel cwarantyn ar ôl mynediad) o'i gymharu ag opsiynau eraill. Rydym hefyd wedi cael caniatâd y Gweinyddiaethau Datganoledig i ymgynghori ledled Prydain gyfan. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Strategaeth Bioddiogelwch sydd ar y gweill ar gyfer Planhigion, gan gydnabod nad yw plâu yn parchu ffiniau cenedlaethol.

Rydym yn defnyddio'r term coed risg uchel drwy gydol yr atodiad hwn. At ddibenion y ddogfen hon, nid ydym wedi diffinio'n benodol beth yw coeden risg uchel, ond mae'r rhestr isod yn cynnwys amrywiaeth o faterion a allai gynyddu'r risg i goeden:

- Coed sy'n destun rheoliadau (gan gynnwys mesurau brys) oherwydd sefyllfa anfodddhaol o ran plâu neu glefydau yn y wlad wreiddiol. Er enghraifft, lletywyr

⁶² [Strategaeth Cadernid Iechyd Coed](#)

Xylella fastidiosa, tyllbryf onn emrallt a staen cancr planwydd.

- Coed sy'n gysylltiedig â risg benodol o bla, gan gynnwys coed sy'n gysylltiedig ag achosion neu ryng-gipio, yn y DU neu'r wlad y maent yn tarddu ohoni. Er enghraifft, gwesteiywr chwilen hirgorn yddfgoch a chwilen hirgorn Asia/ Sitrws.
- Coed o faint penodol. Er enghraifft, mae cyfyngiadau mewnfario ar waith ar gyfer coed derw dros 1.2m oherwydd bod mwy o risg y bydd gwyfynod ymdeithiwr y derw ar goed talach na'r maint hwn.

Mesurau bioddiogelwch cyfredol o bwys ar gyfer coed

Mae canlyniad 1 yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion yn nodi trefn bioddiogelwch y DU sy'n seiliedig ar risg, ac yn gwahardd neu'n rheoli mewnfario planhigion a deunyddiau plannu risg uchel.

Mae'n bwysig nodi, o dan rwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd, y gellir cyflwyno cyfyngiadau neu waharddiadau wedi'u teilwra os oes cyfiawnhad technegol cryf dros wneud hynny. Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i asesu'r angen am fesurau ychwanegol dan arweiniad Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU. Wrth gyflwyno unrhyw ofynion newydd, ar sail wirfoddol neu orfodol, rydym yn canolbwyntio ar agweddau a fydd yn sicrhau canlyniadau bioddiogelwch pendant i liniaru/lleihau risgiau. Rydym yn adolygu'r angen am fesurau ychwanegol yn barhaus.

Bob tro y caiff coed eu mewnfario, rhaid cael tystysgrif ffytoiechydol wedi'i chyhoeddi'n swyddogol, sy'n cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r amodau mewnfario. Yn ogystal â hyn, mewn perthynas â choed, rydym wedi rhestru isod rai o'r mesurau bioddiogelwch nodedig sydd ar waith i warchod rhag cyflwyno plâu a chlefydau drwy fasnachu.

Gwahardd mynediad i blanhigion penodol

Mae trefn y DU yn gwahardd mewnfario mwy na 30 genera o goed a llwyni o wledydd y tu allan i'r UE, ac rydym yn aml yn cyflwyno mesurau bioddiogelwch gwell i liniaru risgiau sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft ym mis Ebrill 2021 cyflwynwyd mesurau cryfach yn erbyn gwesteiywr risg uchel *Xylella fastidiosa*.

Ardal Heb Blâu Prydain

Nid yw Prydain bellach yn defnyddio trefniadau ardal warchod yr UE. Yn hytrach, er mwyn rheoli'r risg o blâu cwarantyn sy'n digwydd mewn rhan o Brydain, cyflwynwyd dosbarthiad ardal heb blâu (PFA) sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol, er mwyn diogelu ardaloedd o Brydain lle nad yw'n hysbys bod y plâu yn bodoli, yn erbyn eu cyflwyno. Mae Prydain wedi dynodi dwy ardal heb blâu ar gyfer coed: un ar gyfer gwyfyn ymdeithiwr y derw ac un ar gyfer chwilod rhisgl. Mae gofynion ychwanegol yn berthnasol i symud planhigion penodol i

mewn ac o fewn ardaloedd heb bla sydd y tu hwnt i basbortau planhigion i'w symud i'r ardaloedd lle mae'r plân bodoli. Ni fyddwn yn parhau â'r ardaloedd gwarchod eraill a oedd gan y DU o dan drefn yr UE gan nad yw'r plâu hyn yn bodoli ym Mhrydain, sy'n golygu bod y rhain yn cael eu trin fel unrhyw bla cwarantin arall nad yw'n bodoli ym Mhrydain.

Rhestr plâu cwarantin Prydain

Diwygiwyd y rhestr plâu cwarantin i ganolbwyntio ar blâu sy'n peri'r risg fwyaf i Brydain. O safbwynt plâu a chlefydau coed, mae hyn yn cynnwys *Xylella fastidiosa*, tyllbryf onn emrallt a'r unigion o *Phytophthora ramorum* o'r tu allan i'r UE. Mae gofynion mewnforio parhaol yn gysylltiedig â'r plâu hyn er mwyn diogelu Prydain. Y tu allan i'r UE, mae Prydain wedi gallu cryfhau'r gofynion ar gyfer mewnforio rhywogaethau lletya penodol, yn benodol ar gyfer *Xylella fastidiosa* a staen cancr planwydd.

Blaenoriaethu archwiliadau mewnforio

Mae archwiliadau mewnforio bellach yn cael eu cynnal ar sail risg, a'r nwyddau sydd â'r risg uchaf sy'n cael eu craffu'n fwyaf dwys. Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal ar 100% o blanhigion sy'n cael eu mewnforio i'w plannu o'r rhywogaethau hynny sy'n peri'r risg fwyaf o fod yn westeiwyr plâu a flaenoriaethir ym Mhrydain. Rhestrir coed planwydd ochr yn ochr â gwesteiwyr *Xylella* fel y flaenoriaeth uchaf ar gyfer gwiriadau, wedi'u dilyn gan goed castanwydd pêr, derw, llwyf, pinwydd, *Prunus*, palmwydd, pinwydd, llarwydd, sbriws ac ynn. Ar hyn o bryd mae'r holl rywogaethau hyn o goed yn destun archwiliadau mewnforio yn eu Cyrchfannau nes bydd y Safleoedd Rheoli'r Ffin yn dod yn gwbl weithredol.

Gofynion mewnforio cyn y ffin

Mae rheoliadau iechyd planhigion yn nodi bod yn rhaid i rai rhywogaethau o goed ddod o ardaloedd heb blâu cyn cael eu mewnforio i Brydain. Er enghraifft, er mwyn atal cyflwyno malltod castanwydd pêr, rhaid i goed castanwydd pêr ddod o wlad neu ardal heb blâu. Mae risg is y bydd coed derw'n westeiwyr i falltod castanwydd pêr sy'n golygu, os nad ydynt yn dod o wlad heb blâu neu PFA, y gellir eu mewnforio i Brydain os byddant yn cael eu tyfu ar safle sydd â gwarchodaeth ffisegol lwyr rhag i'r pla gael ei gyflwyno. Mae'r opsiwn o dyfu coed derw mewn amodau gwarchodedig hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y warchodaeth genedlaethol gryfach yn erbyn gwyfyn ymdeithiwr y derw.

Rheoliadau Iechyd Planhigion (Amodau Ffytioiechydol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nid yw Prydain bellach yn defnyddio dynodiad yr UE o ardaloedd gwarchod, ac yn hytrach mae'n defnyddio'r term ardaloedd heb blâu (PFA) sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Amodau Ffytioiechydol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE)

2020 yn sefydlu pedwar categori o blâu planhigion a reoleiddir ar gyfer Prydain ar sail safonau rhyngwladol:

Categori	Disgrifiad	Enghraifft
Plâu cwarantín Prydain	Plâu lle mae gennym asesiad risg cynhwysfawr i gefnogi gofynion mewnfario parhaol i gadw'r wlad gyfan yn rhydd o'r plâu hynny.	<i>Xylella fastidiosa</i> Tyllbryf onn emrallt Unigion o <i>Phytophthora ramorum</i> o'r tu allan i'r UE
Plâu cwarantín dros dro Prydain	Mae'n diogelu rhag plâu cwarantín Prydain ar sail ragofalus tra bo'r dystiolaeth angenrheidiol yn cael ei datblygu a'i hasesu.	Chwilen hirgorn y derw Tyllbryf castan dwy linell Unigion Ewropeaidd o <i>Phytophthora ramorum</i>
Plâu cwarantín o ardaloedd heb bla	Mae'n diogelu rhag cyflwyno plâu niweidiol i ardaloedd ym Mhrydain lle nad yw'r pla'n bodoli	Chwilen sbriws fawr <i>Ips cembrae</i> <i>Ips sedentatus</i> Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw
Plâu Heb eu Rheoleiddio gan Gwarantîn	Mae'n caniatáu diogelwch parhaus i atal plâu rhag lledaenu ymhellach drwy ddeunydd plannu.	<i>Phytophthora austrocedri</i> <i>Phytophthora lateralis</i>

Cwestiynau 34-38

34. Pa mor ymwybodol ydych chi o'r mesurau bioddiogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer mewnfario rhywogaethau coed risg uchel?

- Ddim yn ymwybodol o gwbl
- Ymwybodol i raddau
- Ymwybodol
- Ymwybodol lawn

35. Pa mor fodlon ydych chi gyda'r mesurau bioddiogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer mewnfario rhywogaethau coed risg uchel?

- Ddim yn fodlon o gwbl
- Gweddol fodlon
- Bodlon
- Bodlon iawn
- Ddim yn berthnasol

36. Esboniwch eich dewis ar gyfer C2, mewn dim mwy na 100 gair.

37. Pa ffactorau ydych chi'n poeni fwyaf amdanynt o ran mewnfario coed risg uchel? Rhowch sgôr rhwng 1 a 5 i bob ffactor, gyda 1 fel y ffactor rydych chi'n poeni fwyaf amdano a 5 fel y ffactor rydych chi'n poeni lleiaf amdano.

Mesur	1	2	3	4	5
Pa mor gadarn yw'r dulliau gwylidwriaeth yn y wlad sy'n allforio	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Risgiau o ran plâu ac afiechydon anhysbys	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Pa mor gadarn yw'r cydymffurfriad â'r gofynion cyn allforio a bennwyd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Pa mor gadarn yw'r archwiliadau wrth gyrraedd y wlad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Coed mawr yn cael eu mewnfario'n uniongyrchol i safleoedd plannu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Diffyg arweiniad ynghylch risgiau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

38. Yn eich barn chi, beth yw'r risgiau mwyaf sy'n gysylltiedig â mewnfario coed risg uchel ar gyfer eich busnes/sefydliad? Atebwch mewn dim mwy na 100 gair

Mesurau bioddiogelwch ychwanegol

Yn yr adran flaenorol, nodwyd yr ystod bresennol o fesurau bioddiogelwch sydd ar waith i sicrhau bioddiogelwch Prydain. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar restr o fesurau bioddiogelwch ychwanegol y gellid eu cyflwyno ar ben mesurau presennol rywbryd yn y

dyfodol. Disgrifir y rhain fel mesurau bioddiogelwch ychwanegol gan y bwriedir iddynt fod yn atodol i drefn bioddiogelwch bresennol Prydain.

At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, rydym yn canolbwyntio ar rywogaethau o goed yn unig. Unwaith eto, mae'n bwysig nodi y byddwn ond yn cyflwyno cyfyngiadau neu waharddiadau wedi'u teilwra dan drefn iechyd planhigion y DU os oes cyfiawnhad technegol dros wneud hynny.

Rhestr o fesurau bioddiogelwch ychwanegol

Mae'r mesurau bioddiogelwch ychwanegol wedi'u rhannu'n dri chategori: cyn y ffin, ar y ffin a mewnol. Rydym wedi darparu diffiniad o bob mesur unigol. Sylwch fod rhai mesurau eisoes ar waith, ac mae'r opsiynau isod yng nghyd-destun ymestyn y mesurau hyn lle mae cyfiawnhad technegol dros wneud hynny.

Cyn y ffin

Cyfyngiadau trafndiaeth: Cyfres o fesurau sy'n berthnasol i symudiadau rhyngwladol, wedi'u pennu gan fioleg y plâu sy'n gysylltiedig â'r gwesteiwr. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cludo gwesteiwr risg uchel ar adegau risg isel o'r flwyddyn neu ganiatáu teithio dim ond os yw'r llwyth wedi'i orchuddio'n briodol.

Archwiliadau yn y tymor tyfu yn y wlad sy'n allforio: Archwiliadau yn ystod y tymor tyfu yn y wlad sy'n allforio gan amseru'r archwiliadau yn ôl bioleg plâu.

Rhag-drin neu brofi pob planhigyn: Rhag-drin neu brofi yn dibynnu ar y pla neu'r gwesteiwr a dargedir. Gallai hyn gynnwys: profi yn y labordy/samplu dinistriol cyn allforio; trin/samplu dinistriol/profi yn ogystal ag archwiliad ar ôl cyrraedd y DU; trin gwreiddiau â dŵr poeth neu fygdarthu rhedyn y coed.

Planhigion sy'n cael eu tyfu mewn amodau gwarchoddedig: Planhigion wedi'u tyfu drwy gydol eu hoes mewn safle sydd â gwarchodaeth ffisegol lwyr yn erbyn clefydau a phlâu penodol.

Gwahardd mynediad i blanhigion penodol: Gwahardd planhigion penodol rhag cael eu mewnforio ar sail Dadansoddiad Risg Plâu dan arweiniad y llywodraeth, oni bai y gall y wlad sy'n allforio brofi nad ydynt yn peri risg uchel.

Ar y ffin

Cyfyngiadau llymach ar fewnforio coed mawr gyda phridd a chyfrwng tyfu: Mae cyfyngiadau llym eisoes ar bridd a chyfryngau tyfu ar blanhigion o wledydd y tu allan i'r UE, ac mae'r gofynion ar gyfer pridd a chyfryngau tyfu ynghlwm â phlanhigion o'r UE yn adlewyrchu cyfraith UE a gadwyd o dan y Ddeddf Ymadael. Efallai y bydd cyfleoedd i wella'r

gofynion ar gyfer pridd/cyfyngau tyfu sy'n gysylltiedig â choed/planhigion sy'n cael eu mewnfurio ymhellach.

Caniatáu mewnfurio rhywogaethau/amrywiaethau o blanhigion sydd ag ymwrthedd yn unig: Dylid ond caniatáu mewnfurio rhywogaethau/amrywogaethau planhigion sydd ag imiwnedd rhag pla planhigion, os oes cyfiawnhad technegol dros ganiatáu hynny ar sail Dadansoddiad Risg Plâu dan arweiniad y llywodraeth.

Dim mewnfurio coed dros faint penodol: Gellir mewnfurio coed os ydynt o dan ddiamedr penodol (e.e. diamedr o lai na 1cm ar ei bwynt mwyaf trwchus neu wedi'u mesur ar waelod coesyn). Gellid defnyddio'r opsiwn hwn ar gyfer plâu a fydd yn ymosod ar blanhigion o faint digonol yn unig, neu ond yn gallu bod yn bresennol mewn planhigion o faint digonol.

Cynyddu'r drefn archwilio: Cynyddu'r adnoddau i'r drefn archwilio bresennol er mwyn lleihau'r risg o fewnforion halogedig.

Targeddu risg mewn archwiliadau mewnfurio swyddogol: Ystyried archwiliadau sydd i'w cynnal gan Weithwyr Iechyd Planhigion/ busnesau Iechyd Planhigion achrededig.

Mewnol

Cwarantîn ar ôl mynediad – Cwarantîn Absoliwt: Cedwir llwyth cyflawn o rywogaethau planhigion mewn cyfleusterau diogelwch uchel sydd wedi'u hynysu oddi wrth goed eraill ar ôl cael mynediad, a gyda bioddiogelwch uchel.

Cwarantîn ar ôl mynediad – Cadw'r llwyth dan warchodaeth ffisegol: Cedwir llwyth, neu ran ohono, mewn strwythur caeedig cymeradwy sy'n darparu amddiffyniad ffisegol cyflawn, am gyfnod ac yna'i archwilio'n swyddogol cyn ei ryddhau.

Cwarantîn ar ôl mynediad – Ynysu coed: Mae llwyth, neu ran ohono, yn cael ei gadw ar safle cymeradwy ac yn cydymffurfio â statws ynysu gofodol penodedig – mae'r planhigion yn tyfu yn yr awyr agored ond wedi'u hynysu o bellter penodol oddi wrth blanhigion eraill a allai fod mewn perygl.

Archwiliadau yn ystod y tymor tyfu cyn eu gwerthu ymlaen: Cynhelir yr archwiliadau cyn eu gwerthu ymlaen.

Archwiliadau ar ôl plannu: Lle mae planhigion ar gyfer eu plannu yn segur ar ôl eu mewnfurio, byddai archwiliadau'n cael eu cynnal ar ôl plannu yn ystod y tymor tyfu cyntaf.

Cadw cofnodion o safleoedd plannu: Gwella'r gwaith o gadw cofnodion y tu hwnt i ofynion cyfredol y pasbortau planhigion. Rhaid i'r rheini sy'n plannu coed risg uchel gadw cofnod o ble mae coed sy'n cael eu mewnfurio yn cael eu plannu i wella'r gallu i olrhain os bydd achosion.

Cwestiwn 3-9

39. Llenwch y tabl isod i roi eich barn am y rhestr mesurau uchod. Bwriad y tabl yw casglu eich barn am y canlynol:

- **Effeithiolrwydd:** Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r mesur o ran gwella bioddogelwch Prydain ac atal achosion o blâu a chlefydau sy'n gysylltiedig â choed risg uchel. Rhowch sgôr rhwng 1 a 5, lle mai 1 yw'r mwyaf effeithiol a 5 yw'r lleiaf effeithiol.
- **Ymarferoldeb:** Pa mor hawdd y gallech chi neu eich busnes weithredu, cyflawni a chydymffurfio â'r mesur? Rhowch sgôr rhwng 1 a 5, lle mai 1 yw'r mwyaf ymarferol a 5 yw'r lleiaf ymarferol.
- **Targedu:** A ydych chi'n credu y dylid defnyddio'r mesur i ddelio â risg benodol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys ei ddefnyddio mewn perthynas â rhywogaeth benodol o goeden, llwybr, neu faint coeden.
- **Gwirfoddol neu Orfodol:** Ydych chi'n meddwl y dylid cyflwyno'r mesurau ar sail wirfoddol neu orfodol?

Mesur	Sgôr effeithiolrwydd 1 – 5	Sgôr o ran ymarferoldeb 1 – 5	A ydych chi'n credu y dylid defnyddio'r mesur i ddelio â risg benodol? Defnyddiwch y blwch hwn i ddweud wrthym sut y dylid targedu'r mesur. Eglurwch mewn dim mwy na 50 gair.	Os ydych chi'n meddwl y dylid defnyddio'r mesur, pa ddull ydych chi'n ei ffafrio – gwirfoddol neu orfodol
Cyn y ffin				
Cyfyngiadau trafndiaeth				
Archwiliadau yn y tymor tyfu yn y wlad sy'n allforio				
Rhag-drin neu brofi pob planhigyn ar gyfer eu plannu				
Mae'n rhaid tyfu'r planhigion mewn amodau gwarchoddedig				
Gwahardd mynediad i blanhigion penodol				
Ar y ffin				
Cyfyngiadau llymach ar fewnforio coed mawr gyda phridd a chyfrwng tyfu				
Caniatáu mewnforio rhywogaethau o blanhigion sydd ag ymwrthedd yn unig				
Dim mewnforio coed/planhigion dros faint penodol				
Cynyddu'r drefn archwilio				
Targedu risg mewn archwiliadau mewnforio				
Mewnol				
Cwarantîn ar ôl mynediad – Cwarantîn Absoliwt				
Cwarantîn ar ôl mynediad – Cadw'r llwyth dan warchodaeth ffisegol				
Cwarantîn ar ôl mynediad – Ynysu coed archwiliadau yn ystod y tymor tyfu cyn eu gwerthu ymlaen:				
Archwiliadau ar ôl plannu				
Archwiliadau gwirfoddol ar ôl plannu				
Cadw cofnodion o safleoedd plannu				

Adborth Ymgynghoreion ar yr Arolwg Ar-lein

Annwyl Ymgynghorai

Diolch am eich amser yn llenwi'r arolwg ar-lein yma. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi roi syniad i ni o'ch barn ynglŷn â'r adnodd a'r maes/meysydd rydych chi'n teimlo sydd angen eu gwella, drwy lenwi ein holiadur adborth.

40. Pa mor fodlon ydych chi ar y cyfan â'n pecyn ymgynghori ar-lein?

- Bodlon iawn
- Bodlon
- Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
- Anfodlon
- Anfodlon iawn
- Ddim yn gwybod

Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych chi am yr adnodd, gan gynnwys awgrymiadau ar sut y gallem ei wella.